Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CfBT
Education Trust

Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme

Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy

Canllaw ar gyfer ysgolion:
Rhan 1

Cynulleidfa

Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru; awdurdodau lleol Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol; undebau; sefydliadau amrywiol sydd â diddordeb mewn llythrennedd a rhifedd; ac aelodau'r cyhoedd.

Trosolwg

Mae'r canllaw hwn yn cyd-fynd â Cham 1 y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) ac yn helpu ysgolion i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) ar waith.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Ysgol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5447
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://learning.wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy

Dogfennau cysylltiedig

Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2012); *Rhaglen Rhifedd Genedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2: Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2* (Estyn, 2011); *Y Framwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y fframwaith medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3* (Estyn, 2012); *Ar Drywydd Dysgu map llwybrau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006); *Asesu cynnydd mathemategol plant 5–14 oed mewn ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Sgiliau laith, Llythrennedd a Chyfathrebu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Canllaw ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

© Hawlfraint y Goron 2013

Cynnwys

Cyflwyniad: Beth yw pwrpas y canllaw hwn? 3

Cipolwg ar y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) 5

1. Pam cyflwynwyd y FfLlRh? 7

Cefndir 7

Tystiolaeth Estyn 7

PISA: Pam ei fod mor bwysig? 9

Pwyntiau allweddol 10

Y FfLlRh 13

Goblygiadau ar gyfer ysgolion 15

2. Sut bydd y RhGG o gymorth i ysgolion? 31

Beth fydd partneriaid yn ei wneud? 31

Sut caiff partneriaid eu dyrannu i glystyrau? Faint o amser byddan nhw'n ei dreulio gyda chlystyrau ac ysgolion? 32

Pryd fydd partner yn cael ei ddyrannu i fy ysgol i? 32

Beth yw'r cysylltiadau rhwng gwaith partneriaid ac athrawon rhagorol llythrennedd a rhifedd? 33

Sut bydd partneriaid yn gweithio gydag arweinwyr systemau? 34

Sut bydd partneriaid yn cysylltu â'r cymorth a ddarperir drwy'r consortia rhanbarthol? 34

Beth yw pwrpas y RhGG? 36

Sut mae'r pwrpas hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghynllun y RhGG? 36

3. Beth fydd yn cael ei gyflawni yng Nghyfnod 1? 41

Amcanion 41

Pedwar cyfnod Cam 1 41

Atodiadau

Nodwch: Mae'r atodiadau wedi'u rhifo i gyd-fynd ag adrannau'r *RhGG: Canllaw ar gyfer ysgolion*. Er enghraifft, Atodiad 2.1 ydy'r atodiad cyntaf sy'n perthyn i Adran 2. Mae hyn yn caniatáu i ni ychwanegu atodiadau heb y rheidrwydd o'u hailrifo nhw a chyfeiriadau eraill yn y ddogfen.

2 Gwybodaeth ar gyfer ysgolion

2.1 Cod Ymddygiad partner y RhGG

2.2 Meysydd ffocysu posibl: gweithredu'r FfLlRh

3 Gwybodaeth bellach ar gyfer ysgolion

3.1 Gweithgaredd clwstwr: ymarfer gweithredu'r cwricwlwm

3.2 Gweithredu ar ôl cyfarfod y clwstwr

3.3 Map Cynnydd y FfLlRh. Beth yw sefyllfa gyfredol fy ysgol i wrth weithredu'r FfLlRh?

3.4 Paratoi ar gyfer Cyfnod 2: cynllun gweithredu

4 Awgrymiadau am weithgareddau a thempledau i'w defnyddio gan ysgolion

4.1 Ymgyfarwyddo â'r FfLlRh

4.2 Paratoi ar gyfer Cyfnod 2

5 Trosolwg o'r cyfarwyddyd a'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac Estyn

Geirfa

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CfBT
Education Trust

Cyflwyniad: Beth yw pwrpas y canllaw hwn?

Cyflwyniad: Beth yw pwrpas y canllaw hwn?

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) yn rhan o'r ymgyrch a amlinellir yn *Gwella ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2012) – i godi safonau a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyflawniad addysgol. Sefydlwyd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) gan Lywodraeth Cymru i fod yn gymorth ymarferol, wedi'i deilwra i gwrdd ag anghenion ysgolion unigol, er mwyn sicrhau bod y FfLlRh yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Mae llawer o arfer dda, effeithiol yng Nghymru ac rydyn ni wedi i defnyddio fel sail i ddatblygu rhai o'r gweithgareddau a geir yn yr atodiadau. Nod y RhGG – sy'n canolbwyntio ar glystyrau o ysgolion, cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a gweithio gydag arweinwyr systemau – yw adeiladu ar yr arfer dda a'i rannu er mwyn sicrhau gwaddol cynaliadwy ar ôl i'r RhGG orffen.

Y canllaw hwn ydy'r un cyntaf o bedair rhan. Mae'n delio â chamau cyntaf y RhGG ac yn ffocysu ar gychwyn rhoi'r FfLlRh ar waith yn eich ysgol. Caiff y cynnwys ei ymestyn dros amser er mwyn adlewyrchu pedwar cam y RhGG. Y pedwar cam ydy:

- **Cam 1:** Deall y FfLlRh
- **Cam 2:** O'r awdit i'r cynllun gweithredu
- **Cam 3:** Yr ysgol yn ei weithredu a'i gefnogi
- **Cam 4:** Cynnal ac ymgorffori.

Bydd rhan gyntaf y canllaw hwn yn eich helpu i lunio cynllun[1] gam wrth gam ar gyfer gweithredu'r FfLlRh. Caiff ei deilwra i amgylchiadau penodol eich ysgol a bydd yn ystyried y cynnydd yr ydych eisoes wedi'i wneud.

Mae'r canllaw hwn yn cynnig opsiynau a chyngor i ysgolion ar sut i ymgorffori'r FfLlRh. Mae'n cynnwys enghreifftiau o'r dulliau y mae ysgolion yn eu defnyddio i gynllunio ar gyfer y FfLlRh gyda'r bwriad o helpu ysgolion i:

- addysgu pob agwedd graidd o lythrennedd a rhifedd yn effeithiol mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn eu tro;
- meithrin llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl gwricwlwm;
- gwerthuso'u cynnydd wrth gyflwyno'r FfLlRh a phenderfynu ar y camau nesaf;
- dathlu arferion llwyddiannus a rhannu'r dull o'u cyflawni gydag ysgolion eraill.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu cymorth a chanllawiau eraill.
Yn ogystal, daeth awdurdodau lleol at ei gilydd i ffurfio consortia rhanbarthol

[1] Bydd Rhan 2, 3 a 4 yn ymwneud â gweithredu'r cynllun.

gyda'r ffocws ar wella ysgolion. Bydd y RhGG yn gymorth ychwanegol yn ystod blynyddoedd cynnar y FfLlRh. Bydd partneriaid y RhGG wedi eu hyfforddi ac wedi derbyn llawlyfr cyflenwol i'w galluogi i weithio gyda phenaethiaid, athrawon ac ymarferwyr eraill.

Gellir defnyddio'r canllaw hwn fel:

- fframwaith hyblyg i gyflwyno'r FfLlRh yn eich ysgol;
- ffynhonnell gymorth ar gyfer cynnal awdit o'r hyn a gyflawnwyd eisoes a chreu cynlluniau gweithredu ar gyfer yr hyn sydd angen ei wneud nesaf i weithredu'r FfLlRh yn effeithiol.

Yn y canllaw hwn ceir cefndir cyflwyno'r FfLlRh a phwrpas y RhGG. Mae'n egluro'r amcanion a'r deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer pob un o bedwar cam y rhaglen a disgrifio'r hyn gall ysgolion ei ddisgwyl gan bartneriaid. Ceir gwybodaeth fwy manwl yn yr atodiadau.

Bydd cymorth i ysgolion y RhGG ar gael o fis Mehefin 2013. Bydd y garfan gyntaf ar gyfer cymorth partner y RhGG yn cychwyn ym mis Mehefin 2013, yr ail yn nhymor yr hydref 2013. Rydyn ni'n gwybod bod ysgolion yn awyddus i symud ymlaen i weithredu'r FfLlRh. Hyd yn oed os ydych yn yr ail garfan i ymuno â'r RhGG, gallwch ddefnyddio'r canllaw hwn i baratoi. Felly, mae'r canllaw yn cynnig awgrymiadau, enghreifftiau a deunyddiau ar gyfer sesiynau datblygiad proffesiynol i staff a llywodraethwyr ysgol yn Atodiad 4. Efallai y bydd ysgolion eisoes yn gyfarwydd â pheth o'r wybodaeth o ffynonellau eraill. Os felly, gallan nhw fwrw brasolwg ar yr adrannau hyn a ffocysu ar adrannau eraill a fydd yn eu helpu i symud ymlaen.

Mae Atodiad 5 yn darparu trosolwg o ganllawiau a chymorth arall a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn awgrymu dulliau i'w defnyddio ochr yn ochr â'r canllaw hwn. Ceir cysylltiadau ar gyfer y deunyddiau yn y canllaw hwn.

Mae rhannu arferion da gydag ysgolion eraill yn nodwedd allweddol o'r RhGG a amlygir yn y canllaw. Yn amlwg, bydd man cychwyn pob ysgol yn wahanol. Yr ysgolion eu hunain fydd yn penderfynu sut i fanteisio i'r eithaf ar yr ystod o gymorth a gynigir gan y partneriaid a chyfrannu at amrediad y cymorth hwnnw.

Dydyn ni ddim yn cymryd yn ganiataol y bydd pob ysgol yn cychwyn ar ddechrau'r RhGG a gweithio drwy bob cam fesul cyfnod waeth beth fo'u harbenigedd ar y pryd na'u hymrwymiad mewn mentrau sydd eisoes yn bodoli. Bydd partneriaid y RhGG wedi cael eu hyfforddi'n ofalus i gynorthwyo ysgolion i gynnal awdit o lle maen nhw arni, cynllunio'r camau nesaf a gweithredu'u cynlluniau.


Cipolwg ar y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG)
Rhaglen Gymorth Genedlaethol
Sicrhau bod gan bob athro/athrawes ac ymarferwyr eraill wybodaeth weithiol o'r FfLIRh
Rhoi gwybodaeth i bob ysgol i gynllunio ar gyfer y FfLIRh a'i weithredu
Gwella addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd ym mhob ysgol
Gwella gallu athrawon i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu dysgwyr
Galluogi dysgwyr o bob ystod gallu i gwrdd â'r disgwyliadau a restrwyd yn y FfLIRh
Gweithio gyda'n gilydd
• Consortia rhanbarthol
• Arweinwyr system
• Athrawon nodedig llythrennedd a rhifedd
• Cymunedau dysgu proffesiynol
• Meistr mewn Ymarfer Addysgol
• Deunyddiau cymorth ar-lein
Camau 1–4 y RhGG: Egluro ac ymglymu, adolygu, cynorthwyo ac ymgorffori
FfLIRh
Arf cynllunio cwricwlwm
Sgiliau llythrennedd a rhifedd traws-gwricwlaidd
Ffocws ar sgiliau a chysyniadau
Monitro ac asesu yn erbyn disgwyliadau o ran oed
Yn cynnwys yr holl ddysgwyr
Gyrwyr
PISA 2009, adroddiadau Estyn, canlyniadau TGAU, *Gwella ysgolion* (2012)
Themâu allweddol
• Codi safonau llythrennedd
• Codi safonau rhifedd
• Torri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CfBT
Education Trust

1. Pam cyflwynwyd y FfLIRh?

1. Pam cyflwynwyd y FfLlRh?

Cefndir

Yn *Gwella ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2012), dywedodd Leighton Andrews, AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod canlyniadau asesiad PISA 2009 yn gatalydd ar gyfer ffocws diarbed ar godi safonau. Roedd y Gweinidog yn glir er y cafwyd gwelliant cymharol, 'nad oedd canlyniadau TGAU gystal ag mewn rhannau eraill o'r DU a bod arolygon Estyn yn datgelu nad oedd safonau gystal ag y dylent fod mewn traean o'r ysgolion a gynhelid.'

Mae'r newidiadau a ddisgrifir yn *Gwella ysgolion* yn ymateb uniongyrchol i effaith adroddiad PISA yn ogystal â chyfres o adroddiadau Estyn. Un o becyn o fesurau ydy'r FfLlRh a luniwyd i sicrhau gwelliant cyson a buan mewn safonau mewn safonau llythrennedd a rhifedd ac i oresgyn effaith amddifadedd mewn ysgolion yng Nghymru. Ymhlith y mesurau eraill mae creu consortia rhanbarthol, cyflwyno gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA), arian Grant Effeithiolrwydd Ysgol, cymorth i gymunedau dysgu proffesiynol (CDP) yn ogystal â newidiadau i berfformiad rheoli penaethiaid ac i drefn lywodraethu ysgolion.

Tystiolaeth Estyn

Yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 2011–2012, dywedodd Ann Keane, er bod yna gryfderau yn y ddarpariaeth mewn nifer o agweddau yng Nghymru, roedd darllen, ysgrifennu a rhifedd yn dal i fod yn achos pryder.

Roedd adroddiadau blaenorol, *Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3* (Estyn, 2010) a *Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3* (Estyn, 2012), wedi trafod y meysydd hyn yn fanylach.

Rhifedd: Beth yw'r pynciau trafod?

Yn ôl Estyn[2] ni fu llawer o welliant yn safonau cyrhaeddiad mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 ers 2005. Roedd canran y disgyblion oedd yn cyflawni lefelau uwch wedi gostwng ers 2009. Y prif reswm am hyn oedd 'methu adalw ffeithiau rhif sylfaenol yn ddigonol a methu defnyddio dulliau ysgrifenedig a meddyliol ar gyfer cyfrifo'.

Yn ôl y dystiolaeth, roedd rhaglenni rhifedd dal i fyny yn arwain at welliant yn sgiliau llawer o ddisgyblion. Roedd y rhaglenni ymyriad mwyaf effeithiol yn sicrhau bod tiwtoriaid yn 'gweithio'n agos gydag athrawon dosbarth, bod yn ofalus wrth ddewis y disgyblion hynny sydd angen cymorth, tracio eu cynnydd yn effeithiol ac ymglymu rhieni yn dda'. Cysylltir safonau cyrhaeddiad uchel mewn ysgolion cynradd

[2] *Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3* (Estyn, 2010).

â chymhwyso sgiliau ar draws ystod o bynciau ac mewn 'cyd-destunau bywyd go iawn'. Roedd llai o dystiolaeth o'r dull hwn o fynd ati mewn ysgolion uwchradd. Hefyd, mewn rhai achosion, roedd y disgwyliadau yn rhy isel a defnyddiwyd cyfrifianellau ar gyfer 'cyfrifiadau sylfaenol y dylai disgyblion eu gwneud yn eu pen'.

Rhifedd: Beth yw'r goblygiadau ar gyfer ysgolion?

Nododd Estyn gamau y gallai ysgolion eu cymryd i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni safonau priodol mewn rhifedd gan gynnwys:

- cynllunio fel bod disgyblion yn dysgu'r sgiliau angenrheidiol mewn mathemateg cyn bod eu hangen mewn pynciau eraill;
- canfod y disgyblion hynny sydd angen cymorth a thracio eu cynnydd;
- gwella sgiliau disgyblion mewn cyfrifiadau ysgrifenedig a meddwl;
- datblygu polisïau clir ar y defnydd priodol o gyfrifianellau.

Roedd Estyn yn glir bod gan uwch reolwyr swyddogaeth ganolog wrth wella rhifedd yn eu hysgolion.

Llythrennedd: Beth yw'r pynciau trafod?

Mewn adroddiad cyfochrog ar lythrennedd[3], nododd Estyn nad oedd safonau ysgrifennu disgyblion mewn tua chwarter o ysgolion uwchradd ddim cystal â'u safonau darllen a llafaredd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedden nhw'n cynhyrchu ysgrifennu digon estynedig a'u bod yn gwneud 'camgymeriadau sylfaenol mewn sillafu, atalnodi a gramadeg'. Yn ogystal roedd oed darllen tua 40% o ddisgyblion oedd yn trosglwyddo i ysgol uwchradd o leiaf chwe mis yn is na'u hoed cronolegol ac nad oedd tua 20% yn weithredol lythrennog. (Hynny ydy roedd eu hoed darllen yn is na phlentyn naw a hanner oed.) Roedd cynnydd yn nifer y disgyblion yn cyrraedd lefel disgwyliedig y cwricwlwm cenedlaethol sef Lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg. Fodd bynnag, ar bob lefel o'r cwricwlwm cenedlaethol roedd bwlch amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched yng Nghyfnod Allweddol 3.

Nododd Estyn arfer dda mewn archwiliadau o'r cwricwlwm, datblygiad proffesiynol a monitro disgyblion yn ogystal â threfniadau monitro a gwerthuso ysgol gyfan. Fodd bynnag, mae angen i'r arferion hyn fod yn fwy eang.

[3] *Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3* (Estyn, 2012).

Llythrennedd: Beth yw'r goblygiadau ar gyfer ysgolion?

Nododd Estyn y camau y gallai ysgolion eu cymryd i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni lefelau priodol llythrennedd gan gynnwys:

- tracio cynnydd disgyblion, yn enwedig y rhai mwy galluog a thalentog a'r rhai ar raglenni ymyriad;
- mapio cyfleoedd ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, gyda ffocws penodol ar wella ysgrifennu estynedig a chywirdeb ysgrifennu disgyblion;
- sicrhau bod athrawon yn cynllunio cyfleoedd ymhob pwnc a fydd yn gwella uwch-sgiliau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

PISA: Pam ei fod mor bwysig?[4]

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn nodwedd gynyddol bwysig wrth gymharu addysg fyd eang. Mae PISA yn canolbwyntio ar ba mor dda gall dysgwyr 15 oed gymhwyso'u sgiliau a'u gwybodaeth mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth, gyda phwyslais ar sgiliau dadansoddi, rhesymu a chyfathrebu. Pwysleisir ystyried, dehongli a datrys problemau hefyd. Fel y cyfryw, mae PISA yn caniatáu i ni fesur ein perfformiad addysgol ein hunain yn erbyn safonau gwledydd datblygedig a rhai'r gwledydd sy'n datblygu.

Yn yr asesiad mwyaf diweddar PISA (2009) a ganolbwyntiodd ar ddarllen yn benodol, perfformiodd pobl ifanc 15 oed Cymru yn gyffredinol waeth na'u cyfoedion mewn rhannau eraill o'r DU a gwledydd yr OECD (y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) ar draws y tri maes dan sylw – darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd ystod y cyrhaeddiad yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd yr OECD, ond bod llai o ddysgwyr yng Nghymru yn cyflawni'r lefelau uchaf a chanran uwch wedi'u cofnodi ar y lefelau is (Bradshaw et al., 2010). Roedd yn wir hefyd bod gwledydd eraill yn cau'r bwlch cyflawniad rhwng dysgwyr yn y chwarteli economaidd-gymdeithasol uchaf ac isaf yn sylweddol well na Chymru.

Er bod PISA yn ffocysu ar berfformiad pobl ifanc 15 oed, bydd angen i bob athro/athrawes ac ymarferydd o'r Cyfnod Sylfaen i ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 gydweithio i ddarparu llwyfan cadarn lle gall dysgwyr Cymru Cyfnod Allweddol 4 a thu hwnt gystadlu â'u cyfoedion mewn gwledydd eraill. Dyna'r rheswm pam fod y FfLlRh wedi ei fwriadu i fod yn draws gyfnodol ac yn drawsgwricwlaidd.

[4] Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. and Wheater, R. (2010) *PISA 2009: Achievement of 15-year-olds in Wales*. Slough: NFER.
Isaacs, T. (2012) 'Rôl asesu rhyngwladol i wella ansawdd addysg gyda phwyslais arbennig ar yr Emiriaethau Arabaidd Unedig'. *Essentials of School Education in the United Arab Emirates*. Abu Dhabi: Canolfan yr Emiradau ar gyfer Astudiaeth strategol ac Ymchwil.
OECD (2010) PISA 2009 at a glance. Paris: OECD Publishing.
http://dx.doi.org/10.1787/9789264095298-en

Pwyntiau allweddol

Blaenoriaethau

Bydd angen codi safonau yng Nghymru. Does dim rheswm cynhenid pam dylai dysgwyr yng Nghymru wneud yn waeth na'u cyfoedion mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag, mae cymorth cynhwysfawr a pharhaus yn hanfodol os bydd carfannau, athrawon ac ymarferwyr eraill y dyfodol yn mynd i wella'r proffil cenedlaethol. O ganlyniad, un o'r blaenoriaethau i addysg yng Nghymru ydy datblygu'r mathau o sgiliau a gwybodaeth a asesir yn PISA.

Dydy'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad mewn profion ddim yn gyfyngedig i ysgolion ond mae astudiaeth ddiweddar yn amlinellu rhai ffactorau cysylltiedig ag ysgolion a all gyfrannu at lwyddiant yn PISA. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- bod barn staff ysgol am hinsawdd dysgu'r ysgol yn bositif;
- bod dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gan athrawon gwell, gyda disgwyliadau uchel, yn perfformio'n well na'u cyfoedion;
- bod dysgwyr mewn gwledydd uchel eu perfformiad yn gwybod yn gyffredinol sut i brosesu a chrynhoi gwybodaeth (sy'n dynodi rhywbeth am arddull y dysgu);
- nad oes perthynas annatod rhwng perfformiad uchel a ffyniant economaidd; er enghraifft, mae gwlad De Corea yn genedl uchel ei pherfformiad gydag incwm cenedlaethol gweddol isel;
- mae systemau'r ysgolion sy'n perfformio orau yn darparu addysg o ansawdd uchel ar gyfer eu holl dysgwyr, waeth beth fo'u hamgylchiadau economaidd a chymdeithasol.

Delir â nifer o'r ffactorau hyn sy'n gysylltiedig â lefelau ysgolion yn y strategaeth Gwella ysgolion a gwneir hynny naill ai'n benodol neu ymhlyg.

Effaith amddifadedd

Mae'n bosibl goresgyn effaith amddifadedd fel bod pob dysgwr yn cyflawni'n dda, waeth beth fo amgylchiadau eu cefndir. Hon ydy'r feddylfryd sy'n sail i'r FfLlRh. Er enghraifft, yn Hong Kong, lle sgoriodd dysgwyr yn uchel iawn mewn darllen yn 2009, y ceir y bwlch lleiaf mewn perfformiad darllen rhwng dysgwyr o gefndiroedd breintiedig a difreintiedig. Cafodd dysgwyr mwyaf difreintieidig Hong Kong hyd yn oed sgoriau darllen uwch na chyfartaledd yr OECD (OECD, 2010).

Cysylltiadau rhwng sgiliau a gwybodaeth

Mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ateb cwestiynau PISA a chynllun y FfLlRh. Mae'r FfLlRh yn rhoi ystyriaeth i gynnwys y profion PISA o ran y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddysgwyr feistroli llythrennedd a rhifedd. Hefyd, bydd y dull traws-gwricwlaidd o fynd ati i gryfhau addysgu llythrennedd a rhifedd, dysgu ac asesu yn mynd i'r afael â'r meysydd hynny y cafodd dysgwyr Cymru nhw'n anodd hyd yn hyn.

O ran darllen, sgoriodd dysgwyr yng Nghymru yn gymharol dda ar asesiadau o destunau dibarhaus megis dehongli siartiau, graffiau, tablau, mapiau a ffurflenni. Efallai mai'r defnydd effeithiol a wneir o destunau anllenyddol mewn **gwersi ar draws y cwricwlwm** sy'n gyfrifol am y llwyddiant cymharol hwn. Fodd bynnag, roedd sgoriau asesiadau o destunau di-dor yn is. Mae'r math hwn o asesiad angen mesur cyflawniad darllen cymesur ag oed mewn darllen a deall, 'stamina'[5] darllen a'r gallu i ddod i gasgliad, dehongli a chrynhoi gwybodaeth. Delir â'r sgiliau hyn yn benodol yn y FfLlRh.

Perfformiad isel mewn darllen

Gan ddefnyddio deilliannau asesiadau PISA, gwelwn ddau reswm arbennig dros berfformiad cymharol isel: (i) nifer uchel o achosion ymagwedd wael at ddarllen ac (ii) arferion darllen gwan. Roedd hi'n glir mewn gwledydd uchel eu perfformiad bod cyswllt pendant rhwng ymagweddau da at ddarllen a'r amser a dreuliwyd yn darllen tu allan i'r ysgol. Mae'n bosibl bod dysgwyr sy'n darllen yn dda yn datblygu ymagweddau da at ddarllen ac felly'n darllen mwy, a hynny'n creu cylch o lwyddiant. Gallai'r gwrthwyneb fod yn wir hefyd – efallai nad yw ymagweddau gwael tuag at ddarllen y tu allan i'r ysgol yn achos i ddarllen gwael ond ei fod yn ganlyniad i hynny. Yn y cyd-destun hwn, mae sicrhau gwaith ysgol o safon uchel yn hanfodol i feithrin darllen llwyddiannus ac ymagweddau positif tuag at ddarllen, a fydd yn galluogi cymaint o ddysgwyr â phosibl i feistroli llythrennedd ar y dechrau.

Dealltwriaeth o iaith ydy craidd gwella sgiliau darllen dysgwyr. Felly, mae'n hanfodol bwysig bod rhaglenni addysgu yn gwella gallu dysgwyr i ddeall y testunau y maen nhw'n eu darllen. Mae gofyn i ddysgwyr mewn asesiadau PISA ddangos stamina a

[5] Stamina darllen – y gallu i ddarllen yn annibynnol gyda ffocws a phwrpas am gyfnodau hir.

hyfedredd darllen wrth grynhoi, aralleirio a gwerthuso'r hyn y maen nhw'n ei ddarllen. Mae hyn yn golygu sgiliau darllen a deall da wrth ymgodymu â thestunau cynyddol anodd. Mae gofyn hefyd bod dysgwyr wedi caffael 'awtomatigrwydd' – dadgodio rhugl a chyflym sy'n ganlyniad i waith ffonig o ansawdd uchel.

Llythrennedd ar draws y cwricwlwm

Mae angen i ddysgwyr gymhwyso'u sgiliau darllen mewn ystod o gyd-destunau darllen ar draws y cwricwlwm. Mae angen sgiliau darllen a deall da er mwyn deall, dehongli a gwerthuso gwybodaeth ar draws amrediad o bynciau. Mae'r FfLlRh yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn benodol drwy bwysleisio pwysigrwydd ymarfer sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, mewn cyd-destunau ystyrlon.

Fodd bynnag, er mor bwysig ydy darllen, rhaid ei gyfuno â sgiliau llafaredd ac ysgrifennu effeithiol os ydy dysgwyr am ddatblygu'n ddysgwyr a chyfathrebwyr effeithiol. Mae'r FfLlRh felly yn darparu cydbwysedd o ddisgwyliadau ymarferol a rhyngddibynnol o ran llafaredd, darllen ac ysgrifennu er mwyn cynorthwyo athrawon ac ymarferwyr eraill i annog dysgwyr i wella'u sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Mathemateg

Mewn mathemateg, sgoriodd dysgwyr yng Nghymru yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD yn PISA[6]; ond arddangoswyd y gwahaniaeth lleiaf rhwng y dysgwyr uchaf eu cyflawniad a'r dysgwyr isaf eu cyflawniad mewn mathemateg. Mae mathemateg PISA yn canolbwyntio ar ddadansoddi, rhesymu a chyfathrebu effeithiol wrth osod, datrys a dehongli problemau. Mae'r prosesau a'r sgiliau hyn yn cael eu blaenoriaethu yn y FfLlRh. Mae gofynion cwestiynau PISA yn uchel, ac yn gofyn i ddysgwyr ddarllen yn sylweddol i ddethol a dehongli gwybodaeth. Mae'r rhain yn ddeilliannau uwch na rhai gofynion y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol ac yn dangos pwysigrwydd sgiliau llythrennedd da wrth gyflawni tasgau sy'n seiliedig ar rifedd.

Mae gweithdai PISA ar gyfer ysgolion yn darparu gweithgareddau a byddant yn galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan ystyried cwestiynau sampl a thrafod goblygiadau dulliau trawsgwricwlaidd.*****

***** Cyfeiriwch at ddeunyddiau cyfarwyddyd a chymorth Llywodraeth Cymru – gweler Atodiad 5.

[6] Dewisodd Cymru beidio â chymryd rhan yn yr arolwg arall o fathemateg (a gwyddoniaeth) TIMSS, felly, ni ellir dod i unrhyw gasgliad am gyflawniad Blwyddyn 5 na Blwyddyn 9. Amlygodd data Lloegr bod dysgwyr Blwyddyn 5 wedi gwneud yn eithaf da mewn mathemateg, yn dod yn 9fed yn gyffredinol a llawer uwch na'r cymedrig. Wnaeth dysgwyr Blwyddyn 9 ddim cystal, er yn uwch na'r cymedrig, gan ddod yn 10fed drwyddi draw. Cymerodd Gogledd Iwerddon ran yng ngrŵp oed Blwyddyn 5 gan sgorio 6ed drwyddi draw mewn mathemateg. Ni wnaeth Cymru chwaith gymryd rhan yn PIRLS sef asesiad rhyngwladol darllen ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 5, er y gwnaeth Lloegr a Gogledd Iwerddon hynny. Daeth Lloegr yn 11eg yn gyffredinol – uwch o lawer na'r cymedrig; a gwnaeth Gogledd Iwerddon hyd yn oed yn well gan ddod yn 5ed drwyddi draw.

Y FfLlRh

Datblygwyd y FfLlRh i gynorthwyo athrawon ac ymarferwyr eraill i godi safonau. Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o lythrennedd a rhifedd sydd fwyaf o werth i ddysgwyr yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm ac y bydd eu hangen arnyn nhw i ddatblygu'n ddysgwyr effeithiol.

Mae seiliau rhesymegol y FfLlRh yn glir: anogir a disgwylir i ddysgwyr ddangos yr un safonau wrth ddefnyddio'u sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws pob pwnc; bydd dysgwyr yn ymarfer yn systematig yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu wrth iddyn nhw ddefnyddio'u sgiliau siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn y pen draw bydd hyn yn arwain at gynnydd a bydd cyrhaeddiad yn gwella. Cafodd y FfLlRh ei gynllunio fel offeryn i'w ddefnyddio gan athrawon ac ymarferwyr eraill – o ran cynllunio ac asesu. Drwy'r RhGG bydd enghreifftiau o arferion effeithiol yn cael eu creu gan ysgolion a'u rhannu'n lleol a chenedlaethol fel gall pob athro/athrawes ac ymarferydd arall fanteisio ar y gorau mewn gwir gymuned ddysgu broffesiynol.

Drwy ddatganiadau disgwyliad, mae'r FfLlRh yn dynodi'r sgiliau y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ddysgwyr ddatblygu drwy eu cyfnod yn yr ysgol, o 5 oed i 14 oed, ac mae'n cael ei rannu'n grwpiau blwyddyn. Mae wedi ei rannu'n elfennau llythrennedd a rhifedd, sydd wedyn wedi eu rhannu'n llinynnau.

Dyma'r llinynnau llythrennedd:

- Llafaredd ar draws y cwricwlwm
- Darllen ar draws y cwricwlwm
- Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Dyma'r llinynnau rhifedd:

- Datblygu ymresymu rhifyddol
- Defnyddio sgiliau rhif
- Defnyddio sgiliau mesur
- Defnyddio sgiliau data.

Mae pob llinyn wedi ei rannu'n elfennau, a llythrennedd wedi ei rannu'n agweddau hefyd. Mae'r cydrannau llythrennedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r disgwyliadau'n gyffelyb, gyda nifer o elfennau nodedig yn yr elfen llythrennedd Cymraeg, i adlewyrchu gofynion unigryw'r iaith Gymraeg.

O'i gyfuno â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg, bydd y FfLlRh yn galluogi ysgolion i sicrhau eu bod yn ymdrin â'r ystod lawn o sgiliau a gwybodaeth llythrennedd a rhifedd a ddisgwylir gan y dysgwyr, ac yn galluogi dysgwyr i ymarfer y sgiliau hyn ar draws yr holl gwricwlwm.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu deunyddiau cyfarwyddyd[7] a chymorth ar sail arfer dda mewn ysgolion er mwyn dangos sut i gyfuno elfennau allweddol rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol a'r FfLlRh yn gynlluniau trawsgwricwlaidd effeithiol. Bydd y RhGG yn defnyddio'r rhain ynghyd â deunyddiau a gweithgareddau eraill i gynorthwyo ysgolion.

Sut mae'r FfLlRh yn rhoi cymorth i athrawon ac ymarferwyr eraill i godi safonau

Bydd fframwaith sy'n cysylltu'n benodol â deilliannau llythrennedd a rhifedd yn galluogi athrawon ac ymarferwyr eraill i:

- adolygu dulliau cyfredol a chyflwyno dulliau newydd ffres o ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd;
- integreiddio llythrennedd a rhifedd yn eu haddysgu ar draws y cwricwlwm;
- llunio dulliau effeithiol o ddelio ag asesu dysgu (er enghraifft datblygu dulliau lle mae dysgwyr yn ymwybodol o'u dysgu eu hunain a sut i'w wella);
- cynllunio ar gyfer gwahaniaethu effeithiol drwy ddefnyddio'r FfLlRh i fonitro, asesu ac adrodd ar ddysgwyr unigol;
- canfod yn gynnar ac yn effeithiol y dysgwyr hynny sy'n cwympo'n is na'r hyn y mae disgwyl iddyn nhw ei gyflawni yn ôl eu hoed mewn llythrennedd a rhifedd;
- nodi'r dysgwyr mwyaf galluog a thalentog sydd angen mwy o her;
- penderfynu ar ymyriadau addas wedi'u ffocysu ar faes(feysydd) lle mae angen.

Manteision ychwanegol

Bydd cyflwyno'r FfLlRh hefyd yn arwain at ddatblygu:

- systemau cenedlaethol ar gyfer asesu ac adrodd ar ganlyniadau mewn llythrennedd a rhifedd;
- cyfleoedd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd o fewn pob pwnc;

[7] *Canllaw i ddefnyddio PISA fel cyd-destun dysgu* (Llywodraeth Cymru, 2012).

- polisïau ysgol sy'n cynorthwyo athrawon ac ymarferwyr eraill i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm;
- addysgu o safon uchel ynghyd â datblygiad proffesiynol uchel ei safon;
- datblygiad dulliau ysgol gyfan o fynd ati i adolygu'r cwricwlwm.

Goblygiadau ar gyfer ysgolion

Bydd y FfLlRh yn ofyniad cwricwlaidd statudol o fis Medi 2013 a bydd asesu sy'n defnyddio datganiadau disgwyliadau'r FfLlRh yn statudol o fis Medi 2014.

Bydd cyflwyno'r FfLlRh yn gofyn am addasu rhywfaint ar gynllunio'r cwricwlwm, ac ar fframweithiau asesu ac adrodd ar draws pob ysgol. Mae rhai ysgolion eisoes yn datblygu dulliau o fynd ati i ddelio â chynllunio ar draws y cwricwlwm gan ddefnyddio'r FfLlRh. Rhennir enghreifftiau o arfer dda da ysgolion yn ystod digwyddiadau clwstwr fel y byddant ar gael ar gyfer ysgolion i'w defnyddio.

Bydd angen i sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a rhifedd fod yn sicr cyn gofyn i ddysgwyr eu defnyddio mewn meysydd pwnc eraill. Bydd angen i ysgolion gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod y sgiliau wedi cael eu haddysgu mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg cyn bod eu hangen ar draws y cwricwlwm. Bydd arweinwyr pwnc Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr eraill er mwyn sicrhau bod y dulliau o fynd ati i addysgu a chymhwyso sgiliau yn gyson.

Cododd y cwestiynau canlynol am y goblygiadau i ysgolion yn ystod ymgynghoriad ar y FfLlRh ac ar y RhGG. Caiff yr esboniadau a ddarparwyd, gyda help enghreifftiau mewn rhai achosion, eu datblygu ymhellach mewn deunydd cymorth a hyfforddiant a ddarperir fel rhan o'r RhGG.

Sut bydd cyflwyno'r FfLlRh yn effeithio ar asesu a phrofion?

Gellir defnyddio'r FfLlRh i ddarparu darlun cyffredinol o ddosbarth neu garfan oed fel gall athrawon ac ymarferwyr eraill dracio dilyniant ar draws ysgol. Caiff dilyniant ei gofnodi ar sail disgwyliadau o ran oed ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Gellir casglu'r wybodaeth hon drwy weithdrefnau profion ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Gellir defnyddio asesu yn erbyn y FfLlRh hefyd drwy gydol y flwyddyn i gynorthwyo cynllunio cwricwlwm a pharatoi rhaglenni astudiaeth ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Bwriad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yw darparu data i alluogi ysgolion i fonitro cynnydd dysgwyr yn erbyn cynnydd eu cyfoedion a'u hoed cronolegol. Bydd y profion yn darparu data cymharol ar safonau llythrennedd a rhifedd ar draws Cymru ac maen nhw wedi cael eu llunio i ddarparu data ar ystod o gyrhaeddiad ehangach nag un flwyddyn ysgol.

Mae asesu parhaus o wybodaeth dysgu yn wahanol i brofion cenedlaethol ar ddiwedd Blynyddoedd 2–9. Ni fydd y trefniadau profi newydd yn diddymu'r angen i athrawon asesu sgiliau a chyrhaeddiad yn barhaus.

Mae'r enghraifft ganlynol yn rhoi dull un ysgol o fynd ati i gysylltu asesiad ffurfiannol a datganiadau disgwyliadau yn y FfLlRh.

Strategaeth ysgol gyfan yn cyfuno asesu a deunydd darllen

Cyflwynodd ysgol gynradd yng Ngogledd Cymru system ddarllen oedd yn llai dibynnol ar gynlluniau darllen yn y dosbarth, oherwydd eu bod yn credu nad oedd llyfrau cynlluniau darllen, mewn rhai achosion, yn addas i anghenion eu plant. Gyda help arbenigwyr, graddiwyd ystod addas o lyfrau plant ar y farchnad, yn llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yna tracio cynnydd y dysgwyr drwy ddetholiad o feincnod cynrychioladol a ddewiswyd yn ofalus er mwyn sicrhau datblygiad pob agwedd o ddarllen a deall. Wedyn, croesgyfeiriwyd hyn gyda gofynion y Prawf Darllen Cenedlaethol a'r FfLlRh er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud y cynnydd priodol.

Mae angen i ysgolion ddal i asesu ar sail canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y cynhelir asesiad o'r cwricwlwm a phroses adolygu a fydd yn eu hasio â gofynion y FfLlRh.

Mae sicrhau cysondeb a dilyniant yn hanfodol i godi safonau.

Beth yw dilyniant o ran y FfLlRh?

Dilyniant ydy'r gwelliant yng **nghyflawniad** a **chyrhaeddiad** dysgwyr dros gyfnod eu haddysg. Mae'n cynnwys caffael gwybodaeth a datblygu sgiliau, priodoleddau ac ymagweddau personol. Yng nghyd-destun y FfLlRh gall dilyniant olygu sicrhau cymhwyso a meistroli sgiliau drwy ac ar draws pob pwnc yn y cwricwlwm yn gymesur â'r hyn a ddisgwylir o ran oed. Dylai athrawon ac ymarferwyr eraill ystyried fod sicrhau dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd yn fater cwbl hanfodol.

Gall dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd fod ar sawl ffurf, yn dibynnu ar oed, gallu ac agwedd dysgwyr at ddysgu. I rai dysgwyr, mae cynnydd sylweddol yn golygu cynhyrchu darn ystyriol o waith creadigol heb fawr o help gan yr athro/athrawes neu

ymarferydd arall. I eraill, byddai ysgrifennu yn ffurfiol a disgybledig wrth ymateb i gyfarwyddyd wedi'i ddiffinio'n glir a/neu i ysgogiad, yn wir gyflawniad.

Bydd athrawon ac ymarferwyr eraill effeithiol yn anelu i sicrhau dilyniant yr unigolyn (cyflawniad), wedi ei gydbwyso gyda'r disgwyliad o gynnydd o ran oed (cyrhaeddiad). Mae rheoli dilyniant yn llwyddiannus yn dibynnu ar gynllunio'r athrawon ac ymarferwyr eraill ar sail asesiad cadarn o fannau cychwyn y dysgwyr a'u hanghenion cyfredol.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn disgrifio llwybrau dilyniant ar wahanol oed ac mewn gwahanol sgiliau.

Blwyddyn 2, Ysgrifennu: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Mae sgiliau ysgrifennu Gareth yn dod yn eu blaen yn dda. Ym Mlwyddyn 1 roedd e'n gallu ail-adrodd storïau syml yn annibynnol, yn defnyddio'i wybodaeth am ffoneg a gall ddarllen ei waith yn ôl i'w athro (Blwyddyn 1, Ystyr, pwrpasau, darllenwyr). Ym Mlwyddyn 2 roedd ei athro yn ei annog i ystyried y modd y gallai wella'i waith (Blwyddyn 2, Ystyr, pwrpasau, darllenwyr). Ar y cychwyn, cafodd ei annog i ailedrych ar ei waith i sicrhau bod ei waith yn gwneud synnwyr, yna symudodd ymlaen i ystyried a oedd set o gyfarwyddiadau yr oedd wedi'u hysgrifennu yn gwneud synnwyr i bobl eraill (Blwyddyn 2, Strwythur a threfn). Roedd dilyniant yn golygu symud o ddefnyddio modelau a fframiau ysgrifennu a grëwyd yn y dosbarth i'w helpu i strwythuro'i ysgrifennu i ddewis – gyda hyder cynyddol – sut i strwythuro darnau o waith ffuglen a ffeithiol yn annibynnol, gan gymhwyso'i sgiliau o drefnu syniadau a gwybodaeth ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a phwrpasau.

Dilyniant mewn Llafaredd Cyfnod Allweddol 3

Mae dilyniant mewn llafaredd yn golygu datblygiad yng nghymhlethdod yr iaith a ddefnyddir, ystod y sefyllfaoedd y defnyddir yr iaith ynddyn nhw ac annibyniaeth gynyddol y dysgwr. Mae'r enghraifft hon yn disgrifio athro hanes yn sicrhau dilyniant.

Roedd dosbarth Blwyddyn 8 wedi datblygu dealltwriaeth dda o'r strwythur sylfaenol i'w ddefnyddio wrth egluro ar lafar pam digwyddodd rhyw achlysur neu ddatblygiad. Roedden nhw'n sylweddoli y dylai eu hatebion gynnwys mwy nag un achos ac roedden nhw'n gallu defnyddio categorïau sylfaenol megis 'economaidd', 'gwleidyddol', neu 'grefyddol' i grwpio achosion arbennig at ei gilydd. Roedden nhw'n ymwybodol y dylen nhw geisio penderfynu pa un oedd y pwysicaf, er na allai'r rhan fwyaf o'r dosbarth gyfiawnhau eu barn (Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau, elfen Siarad).

Roedd tuedd i'w hiaith, fodd bynnag fod yn gyfyng iawn, yn awgrymu efallai nad oedden nhw'n gallu gweld na mynegi'r gwahaniaeth rhwng gwahanol rolau a swyddogaethau gwahanol achosion a fyddai'n arwain at ganlyniad arbennig – megis amodau yn llechu dan y wyneb, ffactorau fyddai'n creu cythrwfl neu sbardunau a chatalyddion er enghraifft. Penderfynodd yr athro yn gyntaf ddefnyddio enghreifftiau nad oedd yn hanesyddol, a defnyddio idiomau megis 'y drwg yn y caws oedd...', a chyflwyno geirfa fwy amrywiol a manwl gywir ar gyfer egluro yn ddiweddarach. Yna, defnyddiodd y dywediadau hyn i ddatblygu 'matiau geiriau achosiant' y gallai'r dysgwyr ychwanegu atyn nhw wrth i'w geirfa ymestyn. Defnyddiodd y rhain yn gyson cyn i ddysgwyr ddod i'w hymchwiliad achosiant nesaf, a'u hannog i siarad amdanyn nhw yn gyntaf, yna ysgrifennu brawddegau gan ddefnyddio'r geiriau newydd yn gywir, ac egluro digwyddiadau o ddydd i ddydd ac yna'u cymhwyso'n briodol i'r cyd-destun hanesyddol.

Cysylltu dilyniant â disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran

Mae ysgolion effeithiol yn defnyddio dulliau gwahanol i dracio dilyniant; er enghraifft archwilio gwaith y dysgwyr, arsylwi'r rhyngweithio yn y dosbarth a thrwy asesiadau crynodol ffurfiol. Rhaid ystyried y cyd-destun yn ofalus; er enghraifft, genedigaethau'r haf/hydref a'r pontio o un cyfnod allweddol i'r llall. Mae addysgu effeithiol yn cynnwys disgwyliadau cyson uchel er mwyn gwneud cynnydd eithriadol. Mae cyrhaeddiad FfLlRh o ran oed yn ddangosydd defnyddiol o'r dilyniant a ddisgwylir. Dull effeithiol o gynorthwyo dilyniant ydy sicrhau bod llwybrau dysgu'r dysgwyr wedi'u hunigoli'n ddigonol i gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd.

Beth yw'r berthynas rhwng sgiliau a gwybodaeth?

Mae sgiliau a gwybodaeth yn ategu ei gilydd. Mae'n bwysig ystyried bod y ddwy agwedd ddysgu hyn yn dibynnu ar ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos llythrennedd a rhifedd. Rydyn ni'n gwybod o brofiad y gall dysgwyr gaffael gwybodaeth a dysgu sgiliau o fewn cyd-destun penodol ond yna'n methu cymhwyso'r sgiliau a'r wybodaeth newydd y maen nhw wedi eu dysgu i gyd-destun gwahanol pan fo angen.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn disgrifio sut roedd athrawon yn sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm.

Gwyddoniaeth a sgiliau rhifedd ym Mlwyddyn 7

Roedd grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 7 yn cynnal ymchwiliad gwyddonol i'r berthynas rhwng arwynebedd a chyfradd anweddiad. Roedd hyn yn gyfle iddyn nhw ddefnyddio a datblygu'r sgiliau a'r gwybodaeth mathemategol oedd ganddyn nhw eisoes. Fel man cychwyn, gwiriodd yr athro eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cysyniad o arwynebedd a'r unedau safonol priodol ar gyfer mesur arwynebedd yn yr achos hwn. Wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen, defnyddiodd y dysgwyr y sgiliau mesur a chyfrifo oedd eu hangen i luniadu a dehongli graffau i gael arwynebedd arwynebau. Yn nes ymlaen yn yr ymchwiliad defnyddion nhw eu sgiliau lluniadu a dehongli graffau i gyflwyno a thrafod eu canlyniadau. Yn eu trafodaethau terfynol dangoson nhw agweddau o ymresymu mathemategol a dehongli atebion mewn sesiwn grŵp.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a chymhwyso sgiliau llythrennedd ym Mlwyddyn 2

Manteisiodd ysgol gynradd Gymraeg ar safleoedd treftadaeth lleol drwy fynd â dosbarth Blwyddyn 2 i fapio oed adeiladau canoloesol a Thuduraidd lleol. Yn dilyn yr ymweliad, defnyddion nhw fanc o eiriau ac ymadroddion i greu deialog rhwng dau gymeriad canoloesol a fu'n byw yn yr adeiladau, gan feddwl sut oedd pobl yn byw amser hir yn ôl. Wrth greu ac actio'r ddeialog ar gyfer dysgwyr eraill a rhieni/gofalwyr, roedden nhw'n cymhwyso sgiliau llafaredd a defnyddio cwestiwn ac ateb a siarad yn glir ag ystod o gynulleidfa.

Ymwelodd dysgwyr Blwyddyn 4 â'r un safle. Trafodon nhw'r bensaernïaeth yng nghyd-destun Chwedlau'r Mabinogion. Fe weithion nhw mewn parau i ddewis eu hoff chwedl a chreu eu fersiwn eu hunain ar ffurf deialog. Perfformion nhw hyn yng ngwisg y cyfnod o flaen dysgwyr Blwyddyn 2 a'u hannog i ofyn cwestiynau am y straeon roedden nhw wedi eu clywed neu weld er mwyn cymhwyso sgiliau gwrando a gofyn cwestiynau perthnasol ac ystyrlon.

Sgiliau dylunio a thechnoleg a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3

Fe wnaeth ysgol yng Ngorllewin Cymru gynnwys holl ddosbarthiadau dylunio a thechnoleg Blwyddyn 8 mewn prosiect oedd yn cynorthwyo rhaglen astudio'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dylunio a thechnoleg a llinynnau ymresymu a rhifedd. Gofynnwyd i'r dysgwyr lunio briff at gyfer caffi, gan gynnwys ysgrifennu sampl o fwydlen a datblygu'r ryseitiau arni, gan ddefnyddio cynnyrch lleol. Roedd rhan o'r gweithgaredd yn galw am ddyfeisio ryseitiau ar gyfer grŵp nodweddiadol o gwsmeriaid amser cinio. Gweithgaredd arall oedd prisio cynhwysion y ryseitiau a phenderfynu ar brisiau'r prydau ar y fwydlen. Amcangyfrifodd y dysgwyr y darpar elw, tra'n cadw'r prisiau'n ddigon realistig fel y gallai'r cwsmeriaid fforddio dod i'r bwyty. Roedd y gweithgareddau hyn yn datblygu ymresymu mathemategol drwy ofyn i ddysgwyr drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth mathemategol i sefyllfaoedd o ddydd i ddydd yn ogystal â datblygu sgiliau rhifedd drwy ddefnyddio cyfwerthedd ffracsiynau a chanrannau i ddewis y mwyaf addas yn y cyd-destun hwn.

Mae'n arfer cyffredin yn y mwyafrif o ysgolion cynradd i addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae'r FfLlRh yn gofyn bod sgiliau a gwybodaeth darllen, ysgrifennu, llafaredd a mathemateg yn cael eu cymhwyso'n systematig ar draws yr holl gwricwlwm.

Yn yr un modd, mae angen i ysgolion uwchradd gynllunio'n ofalus ym mhle o fewn cwricwlwm Cymraeg, Saesneg a mathemateg yr addysgir sgiliau gofynnol llythrennedd a rhifedd er mwyn galluogi dysgwyr i ymarfer, atgyfnerthu a datblygu sgiliau o fewn pynciau eraill.

Mae'r FfLlRh yn helpu i ddiffinio'r sgiliau a'r wybodaeth mewn llythrennedd a rhifedd y dylid eu haddysgu a'u hymarfer ar draws y cwricwlwm o 5 i 14 oed. Bydd angen i'r holl athrawon ac ymarferwyr eraill chwarae eu rhan i sefydlu'r FfLlRh fel rhan annatod o addysgu a dysgu. Mewn ysgolion cynradd, bydd athrawon ac ymarferwyr eraill yn cydweithio i ganfod cyfleoedd o fewn y cwricwlwm ar gyfer addysgu sgiliau newydd ac yna'u cymhwyso yn eu cyd-destun. Bydd angen i ysgolion uwchradd drafod gydag adrannau pynciau unigol yr elfennau hynny o'r FfLlRh sydd fwyaf perthnasol i'w pwnc a'r rhai sydd yn gyffredinol berthnasol. Yna, ar sail y drafodaeth hon, bydd angen mapio'r cyfleoedd i gymhwyso sgiliau fel bod pob pwnc yn ymdrin â nhw ar ryw adeg.

Mae llawer o ysgolion eisoes wedi datblygu enghreifftiau da o'r defnydd a chymhwysiad o sgiliau a gwybodaeth llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Bydd y RhGG yn datblygu a dosbarthu enghreifftiau o arferion gorau i arwain ysgolion yn ystod cyfnod y rhaglen.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng adrodd 'cyd-fynd orau' ar y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol a datganiadau Cyfnod Sylfaen ac adroddiad naratif yn defnyddio'r FfLlRh?

Bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn adroddiadau blynyddol naratif yn seiliedig ar asesiad athro/athrawes yn ogystal â chanlyniadau blynyddol y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r FfLlRh yn gofyn yn benodol bod datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hymgorffori ar draws pob pwnc, yn y Gymraeg a'r Saesneg fel bo'n briodol. Bydd angen i adroddiadau naratif gan ddefnyddio'r FfLlRh adrodd ar y cynnydd a wneir i gaffael sgiliau a gwybodaeth mewn llythrennedd a rhifedd a gallu'r dysgwyr i'w cymhwyso mewn cyd-destunau eraill. Gallai'r enghreifftiau a ddyfynnwyd yn y ddogfen hon fod yn ddefnyddiol i ddangos sut gellir defnyddio pob pwnc y cwricwlwm yn gyfryngau i wella safonau yn hyn o beth a sut gellir mynegi hyn mewn arddull naratif. Agwedd bwysig arall o'r FfLlRh ydy ei fod yn adeiladu ar ddealltwriaeth a phrofiad blaenorol dysgwyr drwy gysylltu tasgau a gweithgareddau bywyd go iawn â'r dysgu sy'n digwydd mewn ysgol yn ogystal â darparu model nodedig Gymreig o addysg gyfoes, gan ystyried traddodiadau a diwylliant Cymru ac ar yr un pryd yn addas i'r pwrpas ar gyfer dechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Sut mae'r FfLlRh yn offeryn asesu a sut mae hyn yn plethu gyda phrofion cenedlaethol?

Defnyddir datganiadau disgwyliad manwl gywir i dracio ac asesu canlyniadau FfLlRh dysgwyr 5 i 14 oed. Gellir cysylltu'r datganiadau â chynnydd mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg fel bod tracio cymhwysiad llythrennedd a rhifedd yn cael ei ymgorffori i mewn i asesiad, cofnodi a strategaeth adrodd ysgol gyfan. Wrth wneud hyn dydy'r prosesau tracio a monitro ddim yn cael eu dyblygu.

Mae'r gofyniad hwn i dracio ac asesu sy'n defnyddio datganiadau disgwyliad hefyd yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn gweithio ar lefelau uwch ac is na lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol ar bob lefel gallu. Y bwriad yw talu sylw arbennig i anghenion dysgwyr gydag anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig yn ogystal ag anghenion dysgwyr uchel eu gallu. A chofio bod pob plentyn yn unigryw, mae'r FfLlRh yn cynorthwyo athrawon ac ymarferwyr eraill drwy eu galluogi i gynllunio ar gyfer cynorthwyo ac ymestyn datblygiad sgiliau, os ydy'r cynnydd yn gyflymach neu'n arafach na'r hyn a ddisgwylir.

Mae'r dull uchelgeisiol, penodol, personol iawn hwn o ddelio ag addysg pob plentyn yn agwedd allweddol o'r FfLlRh. Mae'r dull unigolyddol, penodol ac uchelgeisiol hwn o ddelio ag addysg pob plentyn yn agwedd allweddol o'r FfLlRh ac mae'n nodedig i addysg Cymru.

Bydd llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu ar draws pob pwnc o'r cwricwlwm, yn defnyddio disgwyliadau'r FfLlRh o ran oed a bydd ysgolion yn trafod sut mae hyn yn asio i lunio rhaglen gyflawn. Hefyd, bydd gofyn i ysgolion asesu cynnydd dysgwyr ar sail y datganiadau disgwyliad yn y FfLlRh. Bydd profion cenedlaethol yn cyfrannu i'r ystod o dystiolaeth a ddefnyddir i lunio barn ar gaffaeliad sgiliau'r dysgwyr.

Lluniwyd y profion cenedlaethol er mwyn mesur i ba raddau mae dysgwyr unigol a charfannau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir gan ddysgwyr o'u hoed. Byddan nhw'n cyfrannau at ddata ysgol ac yn darparu gwiriad allanol defnyddiol o asesiad parhaus, ond bydd asesiad athrawon yn dal i ddarparu darlun mwy manwl.

Sut gall athrawon ac ymarferwyr eraill ddefnyddio'r FfLlRh a'r profion cenedlaethol fel sail i gynllunio byr dymor, tymor canolig a hirdymor?

Bydd athrawon ac ymarferwyr eraill am ddefnyddio'r FfLlRh i ganfod cryfderau dysgwyr a meysydd sydd angen cymorth a her. Mae angen iddyn nhw gasglu tystiolaeth o gynnydd a chyrhaeddiad o asesiadau ffurfiannol a chrynodol a chynllunio'u gwaith ar gyfer unigolion a dosbarthiadau cyfan yn unol â hynny, er mwyn galluogi dysgwyr i gyflawni disgwyliadau priodol i'w hoed, fel y diffiniwyd yn y FfLlRh.

Yn y tymor byr, bydd yn rhaid i'r cynllunio ystyried tystiolaeth o gamgymeriadau, gwendidau neu gamsyniadau yng ngwaith dyddiol dysgwyr.

Yn y tymor canolig, bydd y FfLlRh yn helpu athrawon i gynllunio cyfresi o wersi a fydd yn darparu cyfleoedd i allu addysgu, atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau allweddol llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destun ystyrlon.

Yn yr hirdymor, bydd y FfLlRh yn galluogi ysgolion i ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n herio pob dysgwr i wella'u safonau a datblygu ymagweddau positif at eu dysgu.

Bydd profion cenedlaethol, tystiolaeth asesu parhaus ac asesiadau rhyngwladol megis PISA yn ein galluogi i fesur llwyddiant a chanfod y meysydd hynny sydd angen gwaith pellach.

Sut mae cynllunio ar gyfer asesu yn rhan annatod a pharhaus o gynllunio cwricwlwm?

Yr hyn sy'n allweddol i hybu cynnydd dysgwyr ydy adeiladu systemau monitro a thracio fydd yn sicrhau bod unrhyw ymyriadau addysgol yn cael y canlyniadau dymunol. Gall y rhain fod yn rhai **crynodol** neu **ffurfiannol**. Er enghraifft, mae profion a gaiff eu marcio'n allanol yn un dull **crynodol** o fonitro cyrhaeddiad. Ar y llaw arall, gellir ystyried bod awgrymiadau anffurfiol athro/athrawes megis canmoliaeth ar lafar neu feirniadaeth adeiladol yn **ffurfiannol**. Termau eraill sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer y mathau hyn o asesiad ydy **Asesu'r Dysgu Ei Hun** (crynodol) ac **Asesu ar gyfer Dysgu** (ffurfiannol).

Mae'n bwysig bod y ddau fath o asesiad yn cael eu hymgorffori mewn unrhyw raglen addysgol er mwyn sefydlu lefel cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr unigol, yn ogystal â'r modd y mae ysgolion, athrawon ac ymarferwyr eraill yn datblygu dros amser.

Mae'r enghreifftiau sy'n dilyn yn dangos sut mae'r FfLlRh yn cynorthwyo'r defnydd o ddulliau ffurfiannol o asesu sy'n galluogi athrawon ac ymarferwyr eraill i ymateb i'r cynnydd mewn sgiliau a lefel annibyniaeth wrth eu cymhwyso.

Asesiad parhaus o ddarllen ym Mlwyddyn 1

Mae Mrs Jones, athrawes Eirian, yn defnyddio cofnodion ffurfiannol o sgiliau darllen er mwyn darparu testunau ar y lefel briodol ac addysgu wedi'i ffocysu. Mae gwybodaeth o asesiad ffurfiannol, ar ffurf cofnodion a nodiadau gymerwyd mewn sesiynau darllen dan gyfarwyddyd yn dangos bod Eirian yn gwneud yn dda mewn un llinyn (Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd) ond heb arddangos, hyd yn hyn, y gallu i ddefnyddio ystod o sgiliau dadgodio i wirio ei darllen.

Er mwyn datblygu cywirdeb a rhuglder ei darllen ar goedd, mae Mrs Jones yn darparu awgrymiadau addysgu er mwyn sicrhau bod sgiliau dadgodio Eirian yn gwella. Mae'n atgoffa Eirian i ddarllen drwy'r gair o'r chwith i'r dde a meddwl am yr hyn mae'n gallu ei weld a fydd o help iddi hi. Pan fydd Eirian yn ceisio dadgodio gair, mae Mrs Jones yn gofyn iddi ei wirio, hyd yn oed os ydy hi'n gywir, fel ei bod yn dysgu i wneud hynny'n annibynnol. Mae Eirian yn gwneud cynnydd da ac yn gynyddol yn gallu cymhwyso sgiliau dadgodio'n annibynnol pan fydd yn darllen testunau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Mae Mrs Jones yn cofnodi'r awgrymiadau addysgu mae hi'n eu defnyddio er mwyn sicrhau nad ydy Eirian yn mynd yn ddibynnol ar gymorth yr athrawes. Pan fydd Eirian yn gallu cymhwyso sgil darllen arbennig yn annibynnol ar draws ystod o gyd-destunau darllen, mae Mrs Jones yn rhoi'r gorau i ddarparu awgrymiadau.

Datblygu asesiad ffurfiannol yn rhifedd Cyfnod Allweddol 3: Datblygu ymresymu rhifyddol

Mewn ysgol uwchradd yng Nghaernarfon, nododd yr adran fathemateg nad oedd dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth ar gyfer gwahanol gyd-destunau. Damcaniaeth yr adran oedd bod eu pwyslais ar gwestiynau ffeithiol yn peri i'r dysgwyr gael trafferth i ddatblygu eu sgiliau ymresymu rhifyddol ac felly'n methu â chymhwyso gwybodaeth ar gyfer gwahanol gyd-destunau. Adolygodd yr athrawon eu cwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 7 ac 8. Fel rhan o adolygiad y cwricwlwm, adeiladon nhw fanc o adnoddau a chynlluniau gwersi i'r adran eu defnyddio. Roedd yr adnoddau a'r cynlluniau gwersi hyn yn mynd i'r afael â gwahanol swyddogaeth cwestiynau yn y dosbarth a delio â'r hyn sy'n gyfystyr â holi o ansawdd da.

Yna, defnyddiodd athrawon yr adran yr adnoddau hyn gyda Blwyddyn 7 ac 8. Roedd yr adnoddau'n cynnwys tasgau mathemategol oedd yn gofyn i ddysgwyr egluro eu rhesymeg ac roedd hynny'n golygu gwaith grŵp. Pwrpas hyn oedd ysgogi gwirio a rhoi sgiliau ymresymu rhifyddol dysgwyr yn eu cyd-destun drwy drafod mewn grŵp. Roedd yr athrawon yn asesu'r ymatebion cywir a rhannol gywir drwy ryngweithio gyda'r grwpiau. Roedd yr asesiad ffurfiannol hwn yn galluogi athrawon i annog dysgwyr i gynnal hunanasesiad ac asesu cyfoedion, a thrwy hynny o bosibl yn cyfrannu at eu dysg eu hunain. Roedd asesiad yr athrawon yn seiliedig ar y rhaglen astudio hon yn ategu canlyniadau o brofion safonol[8].

[8] Gall fod yn anodd asesu cywirdeb allbwn mathemategol o drafodaethau grŵp y dysgwyr yn arbennig pan fydd y dysgwyr wedi cynnig syniad newydd neu ddull annisgwyl.

Asesu a chynllunio cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3

Adolygodd adran hanes ysgol uwchradd yr ystod o gyfleoedd a ddarparwyd ganddyn nhw ar gyfer gwaith llafar cyson ar draws cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3. Roedd y tri athro eisoes yn cynnwys nifer o dasgau chwarae rôl a thasgau cyflwyno yn eu haddysgu arferol ond dechreuon nhw gynllunio'n fwy systematig ar gyfer y rhain, gan gytuno y bydden nhw'n cynnwys o leiaf un ddadl ac un cyflwyniad llafar sylweddol yng nghynllun gwaith ar gyfer pobl blwyddyn.

Roedd y rhain yn adeiladu ar eu cynlluniau gwaith cyfredol – dadl, er enghraifft, a oedd Llywelyn ab Iorwerth yn haeddu cael eu alw'n 'Llywelyn Fawr' neu a ddylai Dafydd, gwas ffarm o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg symud i chwilio am waith ym mhyllau glo Merthyr; ond defnyddiodd yr athrawon ddatganiadau disgwyliad y FfLlRh ar gyfer Blynyddoedd 7–9 i ddatblygu proses i fonitro nid yn unig y dadleuon eu hunain (Siarad, Gwrando) ond hefyd y modd roedd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau i baratoi ar eu cyfer (Cydweithio a thrafod). Ar bob achlysur roedd y dysgwyr yn asesu eu cyfoedion, gan ddechrau wrth adolygu a mireinio'r meini prawf roedden nhw wedi'u defnyddio yn flaenorol.

Sut mae'r FfLlRh yn cymhwyso ar gyfer gwahanol ieithoedd?

Lluniwyd y FfLlRh i gynorthwyo dysgwyr ar draws pob math o ysgol: cyfrwng Cymraeg, cyfrwng saesneg a dwyieithog. Bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio cydran cyfrwng Cymraeg o'r FfLlRh ac ysgolion cyfrwng Saesneg yn dilyn y gydran cyfrwng Saesneg o'r FfLlRh. Efallai y ceir ychydig o wahaniaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mewn rhai ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, gall dysgwyr ddewis rhai pynciau i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd athrawon ac ymarferwyr eraill yn dilyn y datganiadau disgwyliad yn iaith yr astudiaeth.

Mae'r ddwy gydran wedi'u llunio ar gyfer siaradwyr mamiaith. Mae datganiadau disgwyliad yn debyg yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond eu bod yn rhoi ystyriaeth benodol i wahaniaethau ieithyddol. Mae hyn yn golygu bod cysondeb yn null y ddwy iaith o fynd ati, a'r ddau ddull yn seiliedig ar sgiliau.

Mewn achosion o drochi plentyn yn yr iaith, bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r gydran llythrennedd cyfrwng Cymraeg y FfLlRh o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 3 ac ar draws y cwricwlwm o Flwyddyn 3 ymlaen. Byddan nhw hefyd yn gallu defnyddio'r gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg ar gyfer gwaith yn eu dosbarthiadau Saesneg Cyfnod Allweddol 2 i'w galluogi i weithio tuag at ddisgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran mewn Saesneg erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Sut y gellir cymhwyso'r FfLlRh ar gyfer ieithoedd gwahanol?

Dydy cynnydd pob dysgwr ddim yr un fath nac yn datblygu ar yr un cyflymder. Os oes pryderon bod sgiliau ieithyddol yn cyfyngu ar gynnydd plentyn, er enghraifft yn achos teulu sydd newydd symud ac mai nid Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y teulu, gellir defnyddio model caffael iaith i asesu dysgwyr. Os ydy sgiliau dysgwr yn is na'r disgwyliadau o ran oed, caiff hyn ei gofnodi mewn adroddiad naratif a gallai ddylanwadu ar benderfyniad athro/athrawes ar sut orau i asesu dysgwyr yn ffurfiannol. Yr allwedd i sicrhau cynnydd yn y dyfodol ydy cyflwyno'r sgiliau ieithyddol gofynnol cyn gynted â phosibl i'w galluogi i gyrraedd eu potensial.

Enghraifft: Millja, dysgwr Blwyddyn 5

Cyrhaeddodd Millja i Gymru fis Ionawr heb fawr o Saesneg. Bydd yn sefyll prawf Darllen a Rhifedd ym mis Mehefin ond ni fydd ei data asesu hi'n cael ei gynnwys yng nghyfrifiadau'r ysgol nac yn cael ei gasglu'n genedlaethol. Mae ei hathrawes yn defnyddio asesiad sydd wedi hen ennill ei blwyf o gaffaeliad iaith i benderfynu sut orau i'w helpu. Llunnir Cynllun Addysg Unigol i greu cyfleoedd iddi ddysgu Saesneg a chael help ychwanegol gyda darllen ac ysgrifennu Saesneg. Caiff ei rhieni wybod sut mae'r ysgol yn cynllunio i ddatblygu ei sgiliau ieithyddol a sut gallan nhw helpu gartref. O fewn amgylchedd cefnogol, mae'n gwneud cynnydd cyflym gyda'i sgiliau llafaredd ond mae'n cymryd fwy o amser i'w sgiliau defnyddio a chymhwyso darllen, ysgrifennu a rhifedd ddatblygu a chyrraedd y lefelau y disgwylir o ran ei hoed. Yn y cyfamser, mae'r athrawon yn defnyddio tasgau asesu ffurfiannol nad ydyn nhw'n cynnwys iaith ysgrifenedig er mwyn asesu ei dealltwriaeth o gysyniadau a sgiliau ar draws y cwricwlwm.

Sut mae'r FfLlRh yn berthnasol ar gyfer dysgwyr o dan 5 oed?

Ar hyn o bryd, lluniwyd y FfLlRh ar gyfer dysgwyr rhwng 5 ac 14. Ond mae'n hanfodol bod ysgolion yn talu sylw gofalus i'r sgiliau y disgwylir i ddysgwyr eu caffael erbyn iddyn nhw gyrraedd pump oed, fel bod cynllun y cwricwlwm yn galluogi i ddysgwyr fod yn barod ar gyfer addysg statudol. Bydd *Ar Drywydd Dysgu map llwybrau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) a'r cydrannau Ar drywydd llythrennedd ac Ar drywydd rhifedd y FfLlRh yn cynorthwyo athrawon ac ymarferwyr eraill i sicrhau dilyniant sgiliau cynnar fel bod plant yn barod i'w hasesu yn erbyn y FfLlRh.

Sut mae'r FfLlRh yn berthnasol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

Mae'r FfLlRh yn cynnwys datganiadau dilyniant i'w defnyddio gyda dysgwyr gydag ADY. Bydd angen i athrawon ac ymarferwyr eraill ystyried sut orau i ddatblygu

sgiliau a gwybodaeth y dysgwyr ac yna sefydlu'r amodau priodol i'r dysgwyr eu cymhwyso.

Efallai bod dysgwyr ag ADY mewn ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol yn dysgu a chymhwyso'u sgiliau ar lefelau sy'n gyson ag Ar drywydd llythrennedd, Ar drywydd rhifedd ac adrannau Cyfnod Sylfaen y FfLlRh, er bod nifer fechan efallai yn symud ymlaen i adran Cyfnod Allweddol 2.

Dylai athrawon ac ymarferwyr eraill fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran i ddarparu llwybrau priodol ar gyfer dysgwyr i ddysgu a chyflawni. Mae'r enghraifft ganlynol yn disgrifio achos lle roedd yr angen dysgu wedi creu heriau i gymhwyso sgiliau. Datblygodd athrawon ac ymarferwyr eraill ddulliau oedd eisoes yn bodoli i gofnodi ac adrodd i gynnwys ffocws ar sut i gynorthwyo dilyniant o fewn pob datganiad disgwyliad.

Enghraifft: Blwyddyn 3 cynnydd mewn mathemateg

Pan oedd Conrad yn 7 oed canfuwyd ei fod yn ddyslecsig a phan gyrhaeddodd Blwyddyn 3, prin oedd ei ddealltwriaeth o fathemateg Cyfnod Sylfaen. Defnyddiodd ei athrawes y datganiadau dilyniant a disgwyliad sy'n gysylltiedig ag oedran er mwyn canfod y bylchau yn ei sgiliau a'i wybodaeth. Roedd rhain yn bennaf mewn deall gwerth lle ac adalw ffeithiau rhif. Roedd ei anghenion dysgu yn llyffetheirio'r dilyniant drwy'r datganiadau rhifedd sy'n gysylltiedig ag oedran. Lluniodd athrawes Conrad raglen i gynorthwyo Conrad a rhai o ddysgwyr eraill y dosbarth oedd ag anghenion dysgu tebyg o ran dilyniant ac roedd hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r pontio gofalus i Flwyddyn 4.

Roedd eu hathro newydd yn gallu cynnal y momentwm, gan adeiladu ar y dull oedd yn sicrhau meistrolaeth o gysyniadau mathemategol wedi eu hailadrodd drosodd a throsodd yn ymarferol cyn bod cofnodi'n dod yn her ychwanegol. Pan ddaeth hi'n amser i'r grŵp drosglwyddo i'r ysgol uwchradd, roedd cyfathrebu gofalus pellach, gyda'r staff uwchradd oedd yn eu derbyn, yn golygu bod Conrad wedi setlo'n gyflym i waith Blwyddyn 7 ac yn gallu cael mynediad i gwricwlwm uwchradd mathemateg.

Mae'r FfLlRh yn cynnwys anghenion pob dysgwr ac yn delio â'r ystod canlynol o ran oed, o ran llythrennedd a rhifedd. Dangosir hyn yn y tabl sy'n dilyn.

Ar Drywydd...				Cyfnod Sylfaen			Cyfnod Allweddol 2					Cyfnod Allweddol 3			Ymestyn
Datganiadau o ddilyniant (heb fod o ran oed)				Disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran			Disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran					Disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran			Datganiadau o ddilyniant (nad ydynt yn gysylltiedig ag oedran)
Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD)	Camau A	Camau B	Camau C	Dosbarth Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9		

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CfBT
Education Trust

2. Sut bydd y RhGG o gymorth i ysgolion?

2. Sut bydd y RhGG o gymorth i ysgolion?

Beth fydd partneriaid y RhGG yn ei wneud?

Mae'r berthynas rhwng partneriaid ac ysgolion yn ganolog i'r RhGG. Mae llwyddiant y RhGG yn dibynnu llawer ar ansawdd y cysylltiadau proffesiynol y bydd y partneriaethau yn eu creu. Rhaid i bartneriaid ennyn parch a hyder ysgolion. Yn yr un modd, rhaid i ysgolion fod yn hyderus yn eu gallu eu hunain i sicrhau gwelliannau.

Dewiswyd y partneriaid yn ofalus gan dîm y RhGG yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol. Er mwyn cael eu dewis, bu'n rhaid i'r partneriaid arddangos gwybodaeth gyfredol am lythrennedd a/neu rifedd a dealltwriaeth o fentrau yng Nghymru i godi safonau llythrennedd a rhifedd. Hefyd, roedd rhaid bod ganddyn nhw brofiad o arweinyddiaeth ym myd addysg yn ogystal â phrofiad o addysgu mewn ysgol gynradd neu uwchradd. Mae canran sylweddol o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Canolbwyntiodd eu hyfforddiant ar gaffael gwybodaeth benodol ychwanegol o'r FfLlRh yn ogystal â gwella'r sgiliau fyddai eu hangen arnyn nhw i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, gan ddarparu amrediad o weithgareddau datblygiad proffesiynol.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r adborth gan ysgolion wrth reoli perfformiad partneriaid. Bydd gofyn iddyn nhw ymddwyn yn unol â Chod Ymddygiad. (Gweler Atodiad 2.1.)

Prif ffocws y partneriaid fydd gweithio gydag ysgolion o fewn clwstwr. Bydd eu swyddogaeth yn golygu darparu cyngor a chymorth cyfrinachol. Er y byddan nhw'n herio lle bo'n briodol, byddan nhw'n gwneud hynny mewn modd proffesiynol ac adeiladol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried pwysigrwydd y FfLlRh yn ei pholisïau ehangach megis y canllawiau ar reoli perfformiad[9] a chyllido drwy Grantiau Effeithiolrwydd Ysgol a Grant Amddifadedd Disgyblion[10]. Mae consortia rhanbarthol eisoes wedi cychwyn ar raglenni cymorth ar gyfer ysgolion ac wedi dechrau gweithredu'r FfLlRh. Bydd partneriaid yn defnyddio'u gwybodaeth o'r datblygiadau hyn, gan gynnwys adnoddau o ansawdd uchel sydd eisoes yn bodoli ac enghreifftiau cynyddol o arfer dda er mwyn cynorthwyo eu hysgolion.

Bydd mewnbwn partneriaid yn newid drwy gydol pedwar cam y RhGG.

[9] *Rheoli perfformiad ar gyfer athrawon* (Llywodraeth Cymru, 2012), sy'n cynghori y dylai amcanion athrawon ystyried blaenoriaethau'r ysgol yn ogystal â blaenoriaethau'r Gweinidogion ar gyfer gwella ysgol.
[10] *Grant Effeithiolrwydd Ysgol a Grant Amddifadedd Disgyblion 2012–2013* (Llywodraeth Cymru, 2012), sy'n darparu cyllid ar gyfer gwella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyflawniad ddysgwyr.

Ar y cychwyn, byddan nhw'n gweithio'n bennaf gyda'r penaethiaid, ond bydd sgôp eu gweithgaredd yn ymestyn i gynnwys arweinwyr eraill megis cydlynwyr pwnc, yn ogystal ag athrawon dosbarth ac ymarferwyr eraill. Ar gais y pennaeth, efallai gallen nhw ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ar gyfer llywodraethwyr.

Yn ystod Cam 1, byddan nhw'n gweithio gyda'r penaethiaid i sicrhau bod timoedd yr arweinyddiaeth, athrawon, ymarferwyr eraill a chyrff llywodraethu'n deall amcanion y RhGG a sut gallan nhw elwa arni. Byddan nhw'n darparu cymorth wedi'i deilwra fel gall penaethiaid weithio gyda'u staff i adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn i sefydlu'r FfLlRh yn eu hysgolion, canfod meysydd i'w datblygu a chynllunio ar gyfer ei weithredu yn yr ysgol ac yn y dosbarth[11].

Yna, byddan nhw'n helpu ysgolion i roi eu cynlluniau gweithredu ar waith. Byddan nhw'n gwneud hyn drwy adrodd ar anghenion ysgol a chydweithio gyda chydlynwyr rhanbarthol a phartneriaid eraill i ddatblygu a chyflenwi gweithgareddau cymorth sy'n cydweddu. Bydd y rhain yn cynnwys cymorth ar gyfer rhwydweithiau dysgu proffesiynol, hyfforddi, mentora, gweithio gydag athrawon llythrennedd a rhifedd nodedig ac arweinwyr system.

Bydd partneriaid yn rhoi cyfeiriad e-bost a rhif ffôn cyswllt i'w hysgolion.

Sut caiff partneriaid eu dyrannu i glystyrau? Faint o amser byddan nhw'n ei dreulio gyda chlystyrau ac ysgolion?

Bydd rhai partneriaid yn gweithio'n llawn amser ar secondiad ac eraill yn gweithio'n rhan amser. Rheolwr Gweithrediadau'r RhGG, ar y cyd â chonsortia rhanbarthol, fydd yn penderfynu i ba ysgolion fydd partneriaid yn mynd.

Bydd clystyrau yn gwahaniaethu o ran maint. Y dyb ydy y bydd partner yn treulio tua 40 diwrnod gyda phob clwstwr yn ystod cyfnod y RhGG. Bydd hyn yn cynnwys amser lle ffocysir ar ysgolion unigol ac amser wedi'i neilltuo i ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion gyda'r anghenion mwyaf. Treulir y rhan fwyaf o'r amser ar Gam 3, sef yr adeg pan fydd gweithgareddau datblygu'r FfLlRh yn digwydd. Yn ystod Cam 1, bydd y partner yn lansio'r RhGG mewn cyfarfod hanner diwrnod o'r clwstwr. Yna, bydd e/hi yn ymweld am hanner diwrnod â phob ysgol ynghyd â chymorth dros y ffôn ac e-bost.

Pryd dyrennir partner i fy ysgol i?

Bydd dwy garfan o ysgolion yn ymuno â'r RhGG: ym Mehefin 2013, bydd Carfan 1 yn ymuno; wedyn Carfan 2 yn nhymor yr hydref. Dewisir clystyrau ar gyfer y carfannau gan ddefnyddio meini prawf y RhGG er mwyn sicrhau bod y dosbarthiad daearyddol yn gyfartal, bod cymysgedd cynrychioliadol o ysgolion cyfrwng

[11] Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau datblygu'r ysgol neu Gynlluniau Gweithredu Ôl- Estyn.

Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg ac ystod da o fandiau (ymhlith ysgolion uwchradd).

Bydd partneriaid yn cael eu dynodi ar gyfer yr ysgolion cyn i'w carfan ymuno â'r RhGG.

Beth ydy'r cyswllt rhwng gwaith partneriaid ac athrawon rhagorol llythrennedd a rhifedd?

Mae'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol y'n darparu'r cyllid i ryddhau athrawon rhagorol am 40% o'u hamser i fodelu'r arferion gorau, i gynorthwyo cymunedau dysgu proffesiynol a gweithio ochr yn ochr ag athrawon ac ymarferwyr eraill ac ysgolion eraill lle mae lefel eu harbenigedd mewn llythrennedd a rhifedd yn is.

Lluniwyd y RhGG i adael gwaddol cynaliadwy. Rhan o'r strategaeth ydy sicrhau bod athrawon rhagorol llythrennedd a rhifedd yn cael eu galluogi i ddeall gwaith y partneriaid, i gydweithio gyda nhw a chyflenwi, gyda chaniatâd eu penaethiaid, rhan o'r cymorth i weithredu'r FfLlRh. Bydd y RhGG yn cynnig hyfforddiant i athrawon rhagorol llythrennedd a rhifedd.

Mae'r enghraifft ganlynol yn disgrifio sut cynorthwyodd athro rhagorol rhifedd i addysgu cydweithwyr i ddatblygu dulliau o fynd i'r afael ag asesu ffurfiannol wedi'u cysylltu â'r FfLlRh.

Cynorthwyodd **Frank Evans**, athro rhagorol rhifedd mewn ysgol uwchradd fawr, athrawon Blwyddyn 7 i ddefnyddio'r FfLlRh i asesu cyrhaeddiad a ffocysu ar anghenion dysgwyr. Cymerodd y datganiadau disgwyliad ar gyfer 'Datblygu sgiliau rhif' a chreu cyfres o dasgau asesu yn cwmpasu'r datganiadau o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 7. Cynorthwyodd ei gydweithwyr yn yr adran fathemateg i ddefnyddio'r rhain gyda dysgwyr Blwyddyn 7 dros gyfnod o bythefnos ac i roi'r data ar daenlen. Roedd hyn yn darparu tystiolaeth glir o'r bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth, yn dangos y nifer o ddysgwyr oedd heb eto gaffael sgiliau o ddatganiadau blaenorol. Roedd gan yr athrawon mathemateg ffocws ar gyfer addysgu a sicrhau dilyniant ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog.

Ar ôl i'r sgiliau rhif perthnasol gael eu haddysgu a'u hatgyfnerthu mewn gwersi mathemateg, cyfarfu Frank ag adrannau eraill i gynllunio cymhwyso sgiliau rhif ar gyfer pynciau eraill ac i sicrhau dilyniant ar draws yr holl gwricwlwm. Ar ddiwedd y flwyddyn, defnyddiwyd y tasgau asesu unwaith eto; gyda bron yr holl ddysgwyr yn cyrraedd yr hyn a ddisgwylir o ran oed neu'n uwch ar gyfer Blwyddyn 7.

Ceir enghraifft bellach o sut cynorthwyodd cydlynydd pwnc staff eraill i gychwyn gweithio gyda'r FfLlRh gweler *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm** (Llywodraeth Cymru, 2013), tudalen 17).

Sut bydd partneriaid yn gweithio gydag arweinwyr system?

Gyda'r ffocws ar wella ysgol, boed mewn clwstwr, ysgol neu adran, mae rôl arweinwyr system yn ategu gwaith partneriaid. Cytunir gyda'r penaethiaid a'r consortia rhanbarthol ar y trefniadau i arweinwyr systemau weithio mewn clystyrau ac ysgolion. Mewn rhai achosion, megis cyfarfod cyntaf clwstwr neu ymweliad ysgol gan bartner, gall arweinwyr systemau ymuno â'r partner (ceir manylion am y digwyddiadau hyn yn Adran 3). Mewn achosion eraill, gallen nhw weithio gydag ysgolion ar agweddau o wella ysgol, agweddau sy'n canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd (er enghraifft, os bydd arolwg Estyn wedi nodi hyn yn flaenoriaeth i ddelio ag e drwy'r cynllun gweithredu ôl arolwg).

Sut bydd partneriaid yn cysylltu â'r cymorth a ddarperir drwy'r consortia rhanbarthol?

Bydd pob consortiwm rhanbarthol yn penodi cydlynydd rhanbarthol a fydd yn atebol i Reolwr Arweiniol y RhGG (Richard Roberts) am 80 diwrnod y flwyddyn, fel arfer 2–3 diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor. Bydd y cydlynydd rhanbarthol yn sicrhau bod cymorth RhGG yn gydnaws â chymorth y consortiwm rhanbarthol fel bod y cymorth yn gydlynol heb unrhyw ddyblygu.

Ceir manylion am y pedwar rhanbarth a'u consortia, yr awdurdodau lleol a'r cydlynwyr lleol yn y tabl sy'n dilyn.

* Cyfeiriwch at ddeunyddiau cyfarwyddyd a chymorth Llywodraeth Cymru – gweler Atodiad 5.

Rhanbarth	Enw(au)'r consortiwm	Awdurdodau lleol	Cydlynydd rhanbarth
Gogledd Cymru	GWE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd)/ Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgolion Gogledd Cymru **www.consortiwm.org**	Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Wrecsam	Siwan Meirion siwan.meirion@wrexham.gov.uk
De Orllewin a Chanolbarth Cymru	Consortiwm Addysg De Orllewin a Chanolbarth Cymru **www.swamwac.org**	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Caerfyrddin, Ceredigion, Powys	*I'w benodi/phenodi* Cyswllt allweddol: Aled Evans a.evans@npt.gov.uk
Canolbarth y De	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De **www.cscjes.org.uk**	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg	Cyswllt allweddol: Angela Kent Angela.kent@cscjes.org.uk a Jane Holland Jane.holland@rctcbc.gov.uk
De Ddwyrain Cymru	Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru **http://www.sewales.org.uk/?languageid=2&**	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen	Cyswllt allweddol: Jane Crawley-Adams Jane.Crawley-Adams@sewaleseas.org.uk

Y prif gyswllt ar gyfer partneriaid ydy'r cydlynydd rhanbarthol (neu'r cyswllt allweddol interim a enwyd uchod).

Cyn i bartneriaid gychwyn ar eu gwaith gydag ysgolion, bydd y cydlynydd rhanbarthol yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw am:

- enw arweinydd perthnasol y system rhanbarthol;
- enwau unrhyw aelodau o'r staff rhanbarthol sy'n cynorthwyo'r ysgolion a natur y cymorth.

Bydd y partner yn adrodd yn ôl yn gyson i Brif Swyddfa'r RhGG. Caiff rhai o'r adroddiadau hyn eu trosglwyddo i'r cydlynydd rhanbarthol i'w helpu i benderfynu ble mae angen mwy o help partner ac am y mathau o weithgareddau cymorth sydd eu hangen. Gyda'i gilydd bydd yr adroddiadau yn caniatáu i'r RhGG ganfod (a hysbysu Llywodraeth Cymru):

- y cynnydd a wnaed gan ysgolion tuag at gwblhau pob cam o'r RhGG;
- a ydy ysgolion wedi cwblhau pob cam o'r RhGG (a throsglwyddo'r wybodaeth i'r cydlynydd rhanbarthol);
- materion cymorth ac anghenion pob ysgol (a throsglwyddo'r wybodaeth i'r cydlynydd rhanbarthol).

Bydd y cydlynydd rhanbarthol yn gweithio gydag aelodau eraill o dîm y RhGG er mwyn penderfynu ai'r RhGG, y rhanbarth neu'r ddau ydy'r gorau i gwrdd ag anghenion cymorth ysgolion unigol.

Beth yw pwrpas y RhGG?

Pwrpas trosfwaol y RhGG ydy helpu ysgolion roi gwybodaeth gadarn o lythrennedd a rhifedd i bob dysgwr. Er y bydd rhai yn symud ymlaen yn gynt ac ymhellach nag eraill, bydd mwyafrif helaeth y dysgwyr yn gallu cyflawni'r nod hwn, sy'n hanfodol os ydyn nhw am lwyddo ym myd addysg, ennill bywoliaeth a byw bywyd llawn.

Sut mae'r pwrpas hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghynllun y RhGG?

Mae pedwar cam i'r RhGG, camau sy'n gynyddol ac wedi'u cysylltu â deilliannau. Os ydy ysgolion, ar ôl trafod gyda'u partneriaid, yn hyderus eu bod wedi cyflawni deilliannau un cam, byddan nhw'n symud i'r cam nesaf. Isod, ceir crynodeb o ddeilliannau pob cam.

Amcanion

Erbyn diwedd Cam 1, bydd ysgolion gan gynnwys staff a llywodraethwyr:

- yn gyfarwydd â'r FfLlR, ei bwrpas, ei strwythur, y fethodoleg a'r hyn y mae'n gofyn i ysgolion ei wneud;
- wedi ymrwymo i sefydlu'r FfLlRh yn eu hysgol;
- yn gwybod pa gymorth gall y RhGG ei gynnig yn gyffredinol gyda ffocws arbennig ar Gam 1;
- wedi nodi uwch aelod o'r staff i arwain y gwaith o weithredu'r FfLlRh yn yr ysgol;
- wedi sefydlu perthynas waith dda gyda'u partneriaid;
- wedi datblygu cynllun gweithredu rhagarweiniol i roi'r FfLlRh ar waith yn yr ysgol;

Erbyn diwedd Cam 2, bydd ysgolion, gan gynnwys staff a llywodraethwyr:

- wedi adolygu'r holl gwricwlwm i ganfod ble fydd y FfLlRh yn ychwanegu gwerth, er enghraifft drwy nodi bylchau a gofynion er mwyn gwella addysgeg a dilyniant;
- wedi ystyried sut gellir defnyddio'r FfLlRh gydag asesiadau ffurfiannol i ganfod cryfderau dysgwyr a meysydd i'w gwella;
- wedi penderfynu sut bydd angen arnyn nhw i newid yr addysgu (h.y. cynllunio ac arferion dosbarth);
- wedi adolygu agweddau o drefniadaeth yr ysgol, ei rheolaeth a'r adnoddau i helpu gweithredu'r FfLlRh. Gallai hyn gynnwys newidiadau i strwythurau staffio, defnyddio rheolaeth perfformiad a datblygiad proffesiynol i wella sgiliau athrawon ac ymarferwyr eraill neu gyllid Grant Effeithiolrwydd Ysgol i dalu am athrawon rhagorol llythrennedd a rhifedd i weithio gydag athrawon ac ymarferwyr eraill;
- wedi ystyried y casgliadau hyn er mwyn canfod blaenoriaethau'r FfLlRh ar gyfer cynllun datblygu'r ysgol.

Erbyn diwedd Cam 3, bydd y mwyafrif o'r ysgolion, gan gynnwys staff a llywodraethwyr, wedi cwblhau'r camau gweithredu a nodwyd fel blaenoriaethau i weithredu'r FfLlRh yn eu hysgolion. Caiff y rhain eu teilwra i anghenion eu hysgolion. (Ceir crynodeb o ddarpar feysydd ffocws yn Atodiad 2.2.)

Erbyn diwedd Cam 4 bydd:

- penaethiaid a llywodraethwyr yn hyderus bod y FfLlRh yn darparu cymorth digonol a digon o sgôp ar gyfer eu harweinyddiaeth broffesiynol i gyflawni nodau llythrennedd a rhifedd yn eu hysgol;
- gan athrawon ac ymarferwyr eraill y sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder broffesiynol i addysgu ac asesu'r FfLlRh;
- rhwydweithiau cynaliadwy wedi cael eu sefydlu fel gall arweinwyr system eu defnyddio i weithio'n effeithiol gydag ysgolion; gall athrawon nodedig llythrennedd a rhifedd gynorthwyo athrawon, gan ddatblygu a lledaenu arfer dda mewn llythrennedd a rhifedd.

Cynllun

Mae cynllun y RhGG yn adlewyrchu'r deilliannau a gynlluniwyd. Mae nod gwahanol i bob cam ac maen nhw wedi'u cynllunio i adeiladu'n rhesymegol.



Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4
Ffocws: Adeiladau dealltwriaeth ac ymrwymiad	**Ffocws:** Ysgolion yn gweithio gyda phartneriaid i werthuso'u sefyllfa a dewis blaenoriaethau ar gyfer eu cynlluniau datblygu'r ysgol	**Ffocws:** Gweithredu blaenoriaethau, gan ddethol o fwydlen o opsiynau cymorth (gweler isod)	**Ffocws:** Adeiladu ar y cynnydd a wnaed i ymgorffori'r FfLlRh a chyflawni gwell deilliannau ar gyfer dysgwyr
Gweithgareddau: • Cyflwyno ysgolion i'r RhGG. • Eu helpu i baratoi ar gyfer y gwerthusiad a chynllunio gweithredu yng Ngham 2.	**Gweithgareddau:** • Gwerthuso'r cwricwlwm sydd eisoes yn bodoli, asesu, addysgu a chynorthwyo'r drefniadaeth reoli. • Cyflwyniad i fraslun o'r fwydlen o opsiynau cymorth. • Nodi blaenoriaethau i'w gweithredu.	**Gweithgareddau:** • Gweithredu opsiynau cymorth dethol. • Adolygu a thrafod cynnydd gyda phartner a chytuno ar y camau nesaf.	**Gweithgareddau:** • Cymorth parhaus ar gyfer rhai ysgolion sydd â'r angen mwyaf. • Sefydlu rhwydweithiau cymorth wedi'u ffocysu ar ddeilliannau. • Prosesau wedi'u hymgorffori yn y consortia rhanbarthol. • Cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol i arweinwyr system, athrawon nodedig llythrennedd a rhifedd.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CfBT
Education Trust

3. Beth fydd yn cael ei gyflawni yng Ngham 1?

3. Beth fydd yn cael ei gyflawni yng Ngham 1?

Amcanion

Erbyn diwedd Cam 1, bydd ysgolion, yn cynnwys staff a llywodraethwyr:

- yn gyfarwydd â'r FfLlRh, ei bwrpas a sut mae'n gweithio;
- wedi ymrwymo i sefydlu'r FfLlRh yn eu hysgolion;
- yn gwybod am strwythur y FfLlRh, sut gellir ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio cwricwlwm yn ogystal ag ar gyfer asesu ac i ystyried cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd;
- yn gwybod pa gymorth gall y RhGG ei gynnig a ffocws y cymorth hwnnw yng Ngham 1;
- wedi sefydlu perthynas waith dda gyda'u partneriaid RhGG;
- wedi datblygu cynllun gweithredu rhagarweiniol i roi'r FfLlRh ar waith yn yr ysgol.

Pedwar cyfnod Cam 1

Cyfnod 1: Cyfarfod clwstwr cyntaf ar gyfer penaethiaid

Partneriaid y RhGG fydd yn arwain y cyfarfodydd hyn. Byddan nhw'n cyflwyno trosolwg awdurdodol o'r FfLlRh ac yn ateb cwestiynau am ei bwrpas a'r fethodoleg. Bydd y cyfranogwyr yn derbyn deunyddiau i'w defnyddio yn nes ymlaen i egluro'r FfLlRh i athrawon, ymarferwyr eraill, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr.

Bydd partneriaid yn disgrifio'r mathau o gymorth fydd y RhGG yn gallu ei gynnig a gwneud trefniadau ar gyfer ymweliad hanner diwrnod cychwynnol â phob ysgol.

Bydd partneriaid yn cyflwyno Map Cynnydd y FfLlRh ac yn arwain trafodaeth gyda phenaethiaid am ddulliau i fonitro cyflwyniad y FfLlRh a gwerthuso'r cynnydd tuag at ei weithredu (Atodiad 3.1).

Bydd partneriaid yn gofyn i benaethiaid ddod ag enghreifftiau o arfer dda i'w rhannu a'u trafod. (Rhagor o wybodaeth yn Atodiad 3.1.)

Gwahoddir penaethiaid i drafod, penderfynu a chofnodi pa gamau y mae angen iddyn nhw eu cymryd ar Gyfnod 2 i fanteisio i'r eithaf ar ymweliad y partner (gweler Atodiad 3.2).

Cyfnod 2: Gwaith rhagarweiniol mewn ysgolion

Uwch staff ddylai arwain sesiynau briffio'r FfLlRh ar gyfer athrawon, ymarferwyr eraill a llywodraethwyr. Wrth wneud hyn gallan nhw, pe dymunir, ddefnyddio'r adnoddau yn atodiadau'r canllaw hwn, yn ogystal â'r rhai ar wefan Dysgu Cymru. Dylen nhw hefyd ddefnyddio sianeli cyfathrebu arferol yr ysgol i roi gwybod i rieni/gofalwyr beth ydy dibenion y FfLlRh a'r hyn fydd yr ysgol yn ei wneud i'w weithredu.

Dylai pob ysgol enwebu uwch aelod o'r staff a fydd yn arwain y gwaith o weithredu'r FfLlRh a bod yn brif gyswllt y RhGG.

Dylai'r uwch staff baratoi ar gyfer ymweliad cychwynnol partner y RhGG drwy edrych ar Fap Cynnydd y FfLlRh (Atodiad 3.3). Dylen nhw asesu perfformiad diweddar dysgwyr yr ysgol mewn llythrennedd a rhifedd a thrafod hyn gyda'r partner RhGG. I wneud hyn, dylen nhw ystyried data perfformiad dysgwyr o bob ffynhonnell sydd ar gael. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys yr wybodaeth ysgol gymharol ar asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol ('Gwybodaeth Ysgol Gymharol'), asesiadau athrawon, monitro anffurfiol o gynnydd dysgwyr ac adroddiad diweddaraf Estyn ar yr ysgol. Dylen nhw hefyd ystyried sefyllfa'r ysgol o ran agweddau rheoli, y cwricwlwm a'r addysgu a amlinellir yn y Map Cynnydd. Efallai y bydden nhw'n dymuno trafod hyn gyda'u llywodraethwyr, y tîm arwain, athrawon ac ymarferwyr eraill. Efallai y byddai'n ddefnyddiol nodi cryfderau'r ysgol, agweddau staffio, trefn lywodraethol neu berfformiad yr ysgol i'w helpu i weithredu. Ynghyd â hyn, efallai yr hoffen nhw nodi'r rhwystrau penodol sydd i'w goresgyn cyn gellir gweithredu. Gallai'r rhain fod yn bwyntiau trafod gyda'r partner.

Cyfnod 3: Ymweliad cychwynnol partner y RhGG

Pwrpas ymweliad cychwynnol partner y RhGG ydy:

- cadarnhau perthynas waith dda gyda'r uwch staff ac eraill;
- sefydlu dealltwriaeth rhagarweiniol o berfformiad dysgwyr yr ysgol mewn llythrennedd a rhifedd, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
  - eu cymharu â dysgwyr tebyg mewn ysgolion eraill
  - unrhyw amrywiad ym mherfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr megis bechgyn a merched, dysgwyr o wahanol oed, dysgwyr gyda mamiaith wahanol, dysgwyr ar wahanol lefelau o gyrhaeddiad blaenorol, dysgwyr o wahanol gefndiroedd cymdeithasol
  - tueddiadau ym mherfformiad dysgwyr yn ystod y blynyddoedd diweddar

- defnyddio'r Map Cynnydd i ddeall sefyllfa'r ysgol o ran gweithredu'r FfLlRh. Bydd cynnwys y Map Cynnydd yn gyfrinachol;

- i wneud penderfyniadau rhagarweiniol am y pethau y dylid ffocysu arnyn nhw ar gyfer yr help y bydd y RhGG yn ei ddarparu yng Ngham 3.

Cyfnod 4: Paratoi ar gyfer Cam 2

Dylai'r uwch staff baratoi ar gyfer Cam 2 drwy benderfynu pa welliannau penodol o berfformiad dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd maen nhw'n dymuno'u cyflawni. Dylen nhw wedyn fynd ymlaen i ystyried sut gallan nhw ddefnyddio'r FfLlRh, gyda chymorth y RhGG, i sicrhau'r gwelliannau hyn drwy wneud newidiadau i'r cwricwlwm, i'r addysgu ac i asesu cynnydd y dysgwyr.

Bydd hi'n hanfodol cael arweinyddiaeth broffesiynol effeithiol os ydy'r newidiadau hyn yn mynd i lwyddo. Felly, fel rhan o'u paratoadau ar gyfer Cam 2, dylai'r uwch staff ystyried sut byddan nhw'n arwain a rheoli'r gwaith o weithredu'r FfLlRh yn eu hysgol er mwyn sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd ganddyn nhw yn cael eu cyflawni. (Ceir awgrymiadau ar gyfer strwythuro'r broses yn Atodiad 3.4.)

Yn ystod Cam 1, bydd adolygiad cychwynnol a phroses gynllunio'n digwydd. Bydd hyn yn gosod sylfeini ar gyfer Cam 2. Yn ystod Cam 2, bydd partneriaid y RhGG yn helpu pob ysgol i adolygu yn fanwl ble maen nhw'n sefyll o ran gweithredu'r FfLlRh a phenderfynu pa gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn rhoi'r FfLlRh ar waith fel bod dysgwyr yn gallu cyflawni cystal ag y gallan nhw.

Yng Ngham 3 byddan nhw'n helpu ysgolion i weithredu'n effeithiol gan ddefnyddio help gan glystyrau lleol a help o ffynonellau allanol lle bo'n briodol.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CfBT
Education Trust

Atodiadau

Atodiadau

Nodwch: Mae'r atodiadau wedi'u rhifo i gyd-fynd ag adrannau'r *RhGG: Canllaw ar gyfer ysgolion*. Er enghraifft, Atodiad 2.1 ydy'r atodiad cyntaf sy'n perthyn i Adran 2. Mae hyn yn caniatáu i ni ychwanegu atodiadau heb y rheidrwydd o'u hailrifo nhw a chyfeiriadau eraill yn y ddogfen.

Atodiad 2: Gwybodaeth ar gyfer ysgolion

Cynnwys

Atodiad 2.1 Cod Ymddygiad partner y RhGG

Atodiad 2.2 Meysydd ffocysu posibl: gweithredu'r FfLlRh

Atodiad 2.1: Cod Ymddygiad partner y RhGG

Disgwylir i bartneriaid adlewyrchu egwyddorion y RhGG yn eu gwaith. Dylen nhw:

- gynnig cyngor a chymorth er mwyn delio ag anghenion penodol ysgolion wrth weithredu'r FfLlRh;
- datblygu perthynas agored, onest a phroffesiynol a thrafod yn gwrtais ac ymateb i natur y gynulleidfa;
- paratoi'n drylwyr i gynnal eu gweithgareddau a chyflawni eu cyfrifoldebau;
- gwybod am y datblygiadau proffesiynol perthnasol diweddaraf a'r datblygiadau polisi diweddaraf;
- trin unrhyw wybodaeth o ganlyniad i'w gwaith yn gyfrinachol, yn arbennig os yw'n cyfeirio at ysgolion ac unigolion penodol;
- osgoi gwir wrthdaro buddiannau neu unrhyw wrthdaro buddiannau a ganfyddir (gweler isod).

Gwrthdaro buddiannau

Bwriad CfBT ydy penodi partneriaid sy'n meddu ar arbenigedd sylweddol ym meysydd llythrennedd a rhifedd ac arweinyddiaeth broffesiynol. Yn anochel, byddan nhw wedi datblygu'r arbenigedd hwn drwy'u gwaith blaenorol. Bydd parhad eu harbenigedd yn dibynnu ar ddatblygiad proffesiynol a gwaith parhaus yn y meysydd perthnasol. Hefyd, bydd eu gwaith fel partner yn gwella'u sgiliau a'u gwybodaeth.

Mae CfBT yn cydnabod yr angen i bartneriaid barhau i gynnal eu harbenigedd ac i rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth gyda'r ysgolion tu hwnt i'r RhGG. Fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw wir wrthdaro buddiannau neu wrthdaro a ganfyddir, rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng:

- y gweithgareddau hynny a gynhelir ar ran y RhGG ac eraill;
- atebolrwydd a rhannu gwybodaeth.

Ar yr olwg gyntaf, byddai'n synhwyrol dweud na allai partneriaid ymgymryd â gwaith yn ychwanegol at waith RhGG yn yr ysgolion sydd wedi eu dyrannu iddyn nhw. Fodd bynnag, oherwydd eu bod yn adnabod yr ysgolion yn dda a bod manteision o ran dilyniant, ni waherddir hyn.

Fodd bynnag, rhaid i bartneriaid beidio byth â chwilio am waith ychwanegol gan ysgolion.

Mewn amgylchiadau lle bydd:

- yr ysgolion y maen nhw'n bartner arweiniol ynddyn nhw yn rhoi cynnig iddyn nhw;
- ysgolion cynradd eraill a gynhelir neu ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cynnig gwaith ychwanegol iddyn nhw;

rhaid iddyn nhw ymgynghori â'u cydlynydd rhanbarthol cyn derbyn y cyfryw waith.

Hefyd, o dderbyn contract fel partner, rhaid iddyn nhw gwblhau log buddiannau'r RhGG sy'n cofrestru os ydyn nhw neu unrhyw un o'u perthnasau[12]:

- yn rhieni i blentyn mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, yn aelodau o gorff llywodraethu neu'n gyflogai mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac enwi'r cyfryw ysgolion;
- wedi gweithio neu wedi dal swydd mewn ysgol a gynhelir, mewn llywodraeth ganolog neu leol, mewn consortiwm rhanbarthol neu ddarparwr addysg uwch yn ystod y pum mlynedd blaenorol;
- wedi gweithio i ddarparwr neu â buddiannau ariannol gyda darparwr gwasanaethau gwella ysgol yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd blaenorol;
- yn ystyried y gallai fod gwrthdaro buddiannau.

Y Rheolwr Gweithrediadau a'r Arweinydd Proffesiynol sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod partneriaid [a chydlynwyr rhanbarthol] yn ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad a gofynion gwrthdaro buddiannau, oherwydd ei fod yn berthnasol i ddethol, trefnu a rheoli perfformiad.

[12] h.y. gŵr/gwraig, partner sifil, brawd/chwaer, plentyn, wyr/wyres, gweddw neu widman cyflogai'r darparwr.

Atodiad 2.2: Meysydd ffocysu posibl: gweithredu'r FfLIRh

Mae'r tabl isod er gwybodaeth. Mae'n rhoi gwybodaeth am arferion effeithiol. Efallai yr hoffai ysgolion ganolbwyntio gweithgareddau Cam 3 ar rai o'r meysydd canlynol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol
Adolygu a chynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys dulliau ysgol gyfan o fynd ati'n gyson i addysgu ffoneg, rhifedd a rhif sylfaenol.
Asesiad ysgol gyfan, cofnodi ac adrodd ar bolisïau a phrosesau (gan gynnwys y defnydd o ganlyniadau profion darllen a rhifedd).
Integreiddio gweithrediad y FfLIRh i gynlluniau ysgol gyfan gan gynnwys: strwythurau staffio, modiwlau ADY, rheoli perfformiad a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus, gwneud defnydd o athrawon nodedig llythrennedd a rhifedd a chynorthwywyr addysgu.

Addysgu a dysgu
Cynllunio traws-gwricwlaidd ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd â chysondeb, gyda ffocws ar ddisgwyliadau a dilyniant.
Strategaethau addysgu sy'n briodol i feysydd pwnc ac i ddysgwyr gydag ystod o lefelau sgiliau a galluoedd.
Asesiad o sgiliau a gwybodaeth llythrennedd a rhifedd ochr yn ochr â sgiliau a gwybodaeth penodol i bynciau arbennig.
Dehongli canlyniadau asesiadau ac ymateb iddyn nhw mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi.
Sicrhau bod gan athrawon ac ymarferwyr eraill y sgiliau a gwybodaeth llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen i addysgu'r FfLIRh.

Materion llythrennedd
Anghysondeb wrth weithredu rhaglenni llythrennedd, wrth ddehongli'r term 'llythrennedd' ac yn y dulliau o asesu cyrhaeddiad.
Sicrhau bod bechgyn yn cyflawni'r lefelau llythrennedd sydd eu hangen i allu cael mynediad i gwricwlwm ehangach.
Yr angen am ddull cydlynol a systematig o fynd ati i addysgu ffoneg yn yr ysgol gynradd fel gall dysgwyr sy'n symud i'r ysgol uwchradd ddarllen ar lefel sy'n gyson â'u hoed cronolegol.
Meysydd arbennig i'w gwella mewn sgiliau ysgrifennu.

Materion rhifedd
Dysgwyr yn methu adalw ffeithiau rhif sylfaenol, methu defnyddio dulliau ysgrifenedig ar gyfer cyfrifo arferol ac yn cael anhawster i weithio gyda ffracsiynau, degolion a chanrannau.
Dysgwyr yn methu amcangyfrif canlyniadau symiau ysgrifenedig na rhifyddeg pen, methu amcangyfrif a ydy eu hatebion yn rhesymol ac yn dibynnu'n ormodol ar gyfrifiannell lle byddai defnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig o gyfrifo yn fwy priodol.
Yr angen i ddatblygu strategaethau athrawon ac ymarferwyr eraill ar gyfer addysgu'r sgiliau hyn, yn seiliedig ar dystiolaeth o arferion effeithiol.

Atodiad 3: Gwybodaeth bellach ar gyfer ysgolion

Mae'r deunyddiau hyn yn darparu gwybodaeth bellach am gyfarfod cyntaf y clwstwr ac ymweliad partner y RhGG â'ch ysgol.

Cynnwys

Atodiad 3.1 Gweithgaredd clwstwr: ymarfer gweithredu'r cwricwlwm

Atodiad 3.2 Camau gweithredu ar ôl cyfarfod cyntaf y clwstwr; paratoi i fanteisio i'r eithaf ar ymweliad y partner â'ch ysgol

Atodiad 3.3 Map Cynnydd y FfLlRh. Beth yw sefyllfa gyfredol fy ysgol wrth weithredu'r FfLlRh?

Atodiad 3.4 Paratoi ar gyfer Cam 2

Atodiad 3.1: Gweithgaredd clwstwr: ymarfer gweithredu'r cwricwlwm

Yn ystod y Cyfarfod Lansio Clwstwr, bydd cyfle i chi rannu syniadau a gwybodaeth am y modd y mae ysgolion yn eich clwstwr wedi mynd o gwmpas y broses o gynllunio ar gyfer gweithredu'r FfLlRh.

Diben ymarfer gweithredu'r cwricwlwm ydy:

- ystyried agweddau manwl o gynllunio a gweithredu
- rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

1. Paratoi ar gyfer eich cyfarfod clwstwr cyntaf

a) Edrych ar:

- y diagram 'Gweithredu'r cwricwlwm – Cyfnod Allweddol 3' (tudalen 11, *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2013);
- astudiaethau achos 5 a 6 (tudalen 21 a 22, *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2013).

b) Ystyried rhai o'r cwestiynau hyn fel man cychwyn i drafodaeth grŵp clwstwr:

- Sut byddech chi'n/wnaethoch chi nodi'r sgiliau yn y FfLlRh ynglŷn â phynciau arbennig?
- Sut byddech chi'n/wnaethoch chi fapio pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ar y lefelau cywir yn y FfLlRh?
- Sut byddech chi'n/wnaethoch chi ysgrifennu cynlluniau gwaith?
- Sut byddech chi'n gwirio/wnaethoch chi wirio ar gyfer dilyniant?
- Sut byddech chi'n/wnaethoch chi sicrhau bod cysondeb wrth addysgu ac asesu sgiliau?
- Faint o amser feddylioch chi/ydych chi'n meddwl byddai pob un o'r prosesau hyn yn ei gymryd?
- Sut allwch chi/wnaethoch chi gael amser i gychwyn a chwblhau'r prosesau hyn?
- Petaech yn mynd i ddefnyddio'r broses a welir yn y diagram ar dudalen 11 o'r *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm*, sut byddech chi'n ei newid? Pam?

- Beth wyddoch chi am sgiliau addysgu, llythrennedd a rhifedd eich staff?
- Sut byddwch chi'n canfod anghenion cwricwlwm ac asesu eich ysgol?
- Sut gallwch chi ymgorffori'r prosesau o rannu a hwyluso arfer dda o fewn gweithgareddau datblygu ysgol?
- Beth ydych chi'n ei wneud sydd eisoes yn gweithio?
- Oes gennych unrhyw feysydd pwnc gyda chryfderau arbennig mewn llythrennedd a rhifedd? Sut gall y clwstwr ddefnyddio'r cryfderau hyn?

c) Casglu a dod â'r canlynol i Lansiad y Clwstwr:

Enghreifftiau o'r modd rydych chi a'ch staff wedi gwneud cynnydd wrth adolygu a newid y ddarpariaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r canlynol:

- polisïau pwnc;
- dulliau o gyfleu gwybodaeth i staff ysgol a'r gymuned ehangach;
- amserlenni ar gyfer trafodaeth staff, y broses o fapio'r cwricwlwm a thracio cynnydd.

2. Beth fyddwch yn ei wneud yn yr ymarfer?

Y nod fydd ystyried sut bydd y clwstwr yn gweithio i weithredu'r FfLlRh yn effeithiol megis:

- dulliau o fynd ati i ymgyfarwyddo â'r FfLlRh a sicrhau bod yr athrawon yn deall;
- dulliau o fynd ati i adolygu'r ddarpariaeth gyfredol;
- dulliau o fynd ati i fapio dilyniant;
- ffyrdd effeithiol ac effeithlon o addasu cwricwlwm a chynlluniau gwaith;
- canfod a rhannu arfer dda sydd eisoes yn bodoli mewn ysgol.

Byddwch yn gadael gyda chynllun ar gyfer monitro sut mae'r FfLlRh yn cael ei gyflwyno yn eich ysgol a gwerthuso'r cynnydd

Y partner fydd yn arwain y drafodaeth.

Mannau cychwyn (5–10 munud)

- Pa mor dda mae'r prosesau a ddiffiniwyd (ymgyfarwyddo, canfod sgiliau, mapio'r cwricwlwm, adolygu ac addasu cynlluniau gwaith, dilyniant a gwahaniaethu FfLlRh) yn cydfynd â'ch syniadau o sut i gyflwyno'r FfLlRh yn eich ysgol?
- Ydy rhai o'r agweddau yn bwysicach na'r lleill?
- Sut gall uwch dimoedd arwain i gynorthwyo athrawon ac ymarferwyr eraill?
- Oes unrhywbeth ar goll y gallen ni ychwanegu?

Rhannu arfer effeithiol (10 munud)

Beth ydych chi wedi gwneud yn eich ysgol sydd wedi gweithio'n dda?

Rhannwch enghreifftiau a'r profiadau hyd yn hyn.

Gweithgaredd:

Gan ddefnyddio'r dogfennau polisi ysgol yr ydych wedi dod gyda chi, ystyriwch y canlynol:

- Sut byddech yn mynd o'i chwmpas hi i ganfod anghenion y cwricwlwm ac anghenion asesu pob pwnc?
- Pa fath o amser, adnoddau a chymorth ydych chi'n credu fydd eu hangen arnoch chi i gychwyn?
- Beth allai gael ei sefydlu er mwyn i staff rannu arbenigedd ac arfer dda o fewn ysgol?
- Sut byddwn ni'n gwybod a ydy'r dulliau o fynd ati yn gweithio? Pa ffurf fydd arno?

3. Sut bydd gwneud yr ymarfer yn eich helpu chi a'ch ysgol?

Dylai'r ymarfer hwn eich helpu i benderfynu sut gallech ddefnyddio adnoddau'r FfLlRh a dulliau a rennir gan gydweithwyr i ddatblygu'r broses o weithredu'r cwricwlwm yn eich ysgol. Bydd yr ymarfer hwn yn eich helpu i ateb y cwestiynau hyn:

- Sut gallwch fonitro sut mae'r FfLlRh yn cael ei gyflwyno yn eich ysgol?
- Sut byddwch yn gwerthuso cynnydd?

Mae 'Gweithdy 5: Y camau nesaf' yn darparu cwestiynau a gweithgareddau defnyddiol ar gyfer paratoi'r cynllun gweithredu isod.

Atodiad 3.2: Gweithredu ar ôl cyfarfod y clwstwr: paratoi i fanteisio i'r eithaf ar ymweliad y partner â'ch ysgol

Beth ddylai ddigwydd?	Sut?	Erbyn pryd?	Gan bwy?

Atodiad 3.3: Map Cynnydd y FfLlRh. Beth yw sefyllfa gyfredol fy ysgol wrth weithredu'r FfLlRh?

Y Map Cynnydd ydy man cychwyn y trafod rhwng y pennaeth a'r partner. Mae'n cychwyn gyda gwybodaeth sylfaenol am gyrhaeddiad dysgwyr a'r cyd-destun cyn darparu strwythur ar gyfer trafod y polisïau, prosesau, rheoli ac addysgu. Caiff ei ddefnyddio gyntaf ar ddiwedd Cam 1 ac yna, ar ôl sefydlu cyfeirbwynt, yng Nghamau 2 a 3.

Mae'r cynnwys wedi'i seilio ar amrediad o ddogfennau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n perthyn yn uniongyrchol i'r FfLlRh megis *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm*. Mae'r Map Cynnydd hefyd yn defnyddio deunyddiau Estyn, gan gynnwys cyfarwyddyd ar hunanwerthuso a fydd yn gyfarwydd i ysgolion[13].

Wrth drafod a chytuno ar sut i gwblhau'r Map Cynnydd, gofynnir i benaethiaid a phartneriaid benderfynu a ydy gosodiad arbennig yn un gwyrdd, ambr neu goch yn seiliedig ar yr allwedd isod.

Sylwer: Mae 'Gweithdy 5: Y camau nesaf' yn darparu deunyddiau cymorth buddiol y gellid eu defnyddio i baratoi ar gyfer y Map Cynnydd.

[13] Ymhlith y deunydd gwreiddiol mae: *Manyleb ar gyfer y RhGG* (Llywodraeth Cymru); *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd* Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013); *Canllaw hunanarfarnu ar gyfer ysgolion cynradd* (Estyn, 2010); *Canllaw hunanarfarnu ar gyfer ysgolion uwchradd* (Estyn, 2010); *Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3* (Estyn, 2010); *Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3* (Estyn, 2012); *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2013).

Cyrhaeddiad dysgwyr a chyd-destun

Coch = angen datblygiad sylweddol

Ambr = boddhaol ond heb fod yn gyson ar draws poblogaeth yr ysgol

Gwyrdd = cyflawni safonau uwch na'r disgwyl eisoes

Mae deilliannau dysgwyr mewn llythrennedd (Cymraeg) yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a chyrhaeddiad blaenorol.			
Mae deilliannau dysgwyr mewn llythrennedd (Saesneg) yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a chyrhaeddiad blaenorol.			
Mae deilliannau dysgwyr mewn rhifedd yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a chyrhaeddiad blaenorol.			
Mae safonau grwpiau penodol o ddysgwyr yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a chyrhaeddiad blaenorol (e.e. safonau llythrennedd bechgyn).			
Mae safonau darllen yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a chyrhaeddiad blaenorol.			
Mae sgiliau rhif dysgwyr yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a chyrhaeddiad blaenorol.			

Arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol

Coch = heb fod yn ei le

Ambr = y gwaith wedi dechrau ond angen ei atgyfnerthu

Gwyrdd = yn ei le ac yn cael ei fonitro'n gyson

Dynodwyd uwch aelod o'r staff i fod yn gyfrifol am lythrennedd a rhifedd.			
Mae rhaglen ddatblygiad proffesiynol yr ysgol yn ystyried gofynion DPP i weithredu'r FfLlRh o ran y staff addysgu a'r cynorthwywyr addysgu. Mae'r rhaglen yn sicrhau bydd pob un o'r athrawon a'r ymarferwyr eraill yn meddu ar yr arbenigedd angenrheidiol i addysgu llythrennedd a rhifedd.			
Cydlynwyr pwnc/penaethiaid adran yn gwybod sut i gynnal awdit (archwiliad) o gwricwlwm yr ysgol ar lythrennedd a rhifedd a sicrhau bod y cwricwlwm a addysgir yn briodol heriol.			
Cydlynwyr pwnc/penaethiaid adran wedi cynnal awdit o gwricwlwm yr ysgol ar lythrennedd a rhifedd a sicrhau bod y cwricwlwm a addysgir yn briodol heriol.			
Mae cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth llythrennedd[14] a rhifedd wedi cael eu haddysgu cyn bod dysgwyr eu hangen mewn pynciau eraill.			
Mae'r cwricwlwm cynradd yn nodi ac yn cyflenwi'r sgiliau y bydd y dysgwyr eu hangen wrth symud i'r ysgol uwchradd.			
Mae'r ysgol wedi datblygu ac wedi gweithredu dulliau addysgu rhifedd a rhif sylfaenol, dulliau sy'n gyson ac effeithiol.			
Mae safon addysgu llythrennedd a rhifedd yn gyson uchel ar draws yr ysgol.			
Wrth ymgorffori gofynion y FfLlRh yng nghwricwlwm yr ysgol, darparwyd ar gyfer dysgwyr ag ADY yn ogystal â dysgwyr mwy galluog a thalentog.			
Mae'r ysgol yn defnyddio canlyniadau profion darllen a rhifedd i ganfod a delio â blaenoriaethau ar gyfer gwella yng nghynllun datblygu'r ysgol.			

[14] Ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y dewis.

Mae polisi asesu ac adrodd yr ysgol yn amlinellu'r prosesau ar gyfer tracio a monitro sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr ar draws y cwricwlwm mewn gwahanol feysydd pwnc a thrwy'r cyfnodau allweddol.			
Ceir proses ar gyfer adrodd yn ôl i rieni/gofalwyr ar lythrennedd a rhifedd sy'n darparu disgrifiad naratif o gryfderau eu plentyn a meysydd i'w datblygu (drwy gyfeirio at ddisgwyliadau yn y FfLlRh).			
Mae cynllun yn ei le i sicrhau bod cynorthwywyr addysgu yn ogystal â'r staff addysgu yn cael eu cynnwys yn systematig ac effeithiol yn y gwaith o weithredu'r FfLlRh.			
Mae cynllunio ar gyfer gweithredu yn flaenoriaeth i ddarparu ar gyfer gwneud defnydd effeithiol o'r amser cynllunio, paratoi ac asesu, diwrnodau HMS a'r adnoddau ar gael drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol.			
Mae'r ysgol wedi nodi cam/cyfnod allweddol/grwpiau blwyddyn/adrannau sy'n dangos arfer dda mewn llythrennedd a rhifedd.			
Mae'r ysgol wedi nodi cam/cyfnod allweddol/grwpiau blwyddyn/adrannau sydd angen cymorth wedi'i dargedu o ran gweithredu'r FfLlRh.			
Mae llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr yn gwybod am y FfLlRh ac yn cefnogi strategaeth yr ysgol ar ei weithredu.			

Penaethiaid adran/cydlynwyr pwnc

Coch = heb fod yn ei le

Ambr = y cynllunio wedi'i gwblhau ond y gweithredu heb ddigwydd eto

Gwyrdd = yn ei le ac yn cael ei fonitro'n gyson

Mae'r FfLlRh wedi'i integreiddio yn y cynlluniau gwaith a'r cynlluniau gwersi.			
Mae arsylwadau uniongyrchol yn ffocysu ar dechnegau addysgu a threfniadaeth dosbarth a ddefnyddir i addysgu llythrennedd a rhifedd. (Er enghraifft, ystod o strategaethau addysgu er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn caffael gwybodaeth sylfaenol rhif, darllen, ysgrifennu a llafaredd er mwyn caffael a chymhwyso'r ystod llawn o lefel sgiliau a galluoedd ac effeithiolrwydd gwaith grŵp y dosbarth cyfan ac addysgu un-i-un.)			

Athrawon ac ymarferwyr eraill

Coch = heb fod yn ei le

Ambr = peth gwaith wedi digwydd ond heb ei ymgorffori'n llawn

Gwyrdd = yn ei le ac yn gyson drwy'r ysgol gyfan

Mae'r FfLlRh wedi'i integreiddio yng nghynlluniau gwersi.			
Mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu i addysgu a chymhwyso rhif, darllen, ysgrifennu a llafaredd i'r ystod llawn o lefel sgiliau a galluoedd.			
Athrawon ac ymarferwyr eraill yn meddu ar yr arbenigedd i addysgu gweithgareddau/tasgau priodol fel y gellir asesu sgiliau a gwybodaeth llythrennedd a rhifedd ochr yn ochr â chynnwys pob maes pwnc.			
Athrawon ac ymarferwyr eraill yn gallu dehongli canlyniadau'r asesiadau a'u defnyddio i ysgrifennu cynlluniau dysgu unigol.			
Mewn ysgolion cynradd, athrawon ac ymarferwyr eraill yn deall y bydd profion darllen a rhifedd yn cael eu seilio ar y FfLlRh ac yn gwybod sut i baratoi eu dysgwyr.			

Atodiad 3.4: Paratoi ar gyfer Cam 2: cynllun gweithredu

Rhan 1: Gwelliannau dymunol

Crynodeb o ddadansoddiad o berfformiad cyfredol dysgwyr mewn llythrennedd	Gwelliannau allweddol i'w cyflawni dros y ddwy flynedd nesaf	Sut bydd y gwelliannau yn cael eu mesur?	Y staff sy'n gyfrifol	I'w cwblhau erbyn (dyddiad targed)

Crynodeb o ddadansoddiad o berfformiad cyfredol dysgwyr mewn rhifedd	Gwelliannau allweddol i'w cyflawni dros y ddwy flynedd nesaf	Sut bydd y gwelliannau yn cael eu mesur?	Y staff sy'n gyfrifol	I'w cwblhau erbyn (dyddiad targed)

Rhan 2: Y datblygiadau sydd eu hangen

Agwedd o waith yr ysgol	Y datblygiad sydd ei angen	Dulliau	Y staff sy'n gyfrifol	I'w cwblhau erbyn (dyddiad targed)
Addysgu				
Asesu				
Trefniadaeth y cwricwlwm				
Arferion rheoli				

Atodiad 4: Awgrymiadau o weithgareddau a thempledi i'w defnyddio gan ysgolion

O ran eu datblygiad, bydd yr ysgolion yn gweithredu'r FfLlRh ar wahanol adegau i'w gilydd. Mae'r dogfennau sydd wedi eu cynnwys yn yr atodiad hwn yn cynnig awgrymiadau am weithgareddau a 'phrofformas' y gall ysgolion eu defnyddio yn ystod Cam 1 o'r RhGG.

Cynnwys

Atodiad 4.1: Ymgyfarwyddo â'r FfLlRh

Gellir defnyddio'r deunyddiau hyn i gychwyn y broses o gael y staff a'r llywodraethwyr i ymgyfarwyddo â strwythur, trefniadaeth a chynnwys y FfLlRh.

4.1.1 Gweithredu'r FfLlRh (awgrym o gyflwyniad PowerPoint a nodiadau cyflwyno)

4.1.2 Adolygu'r FfLlRh gyda staff: awgrymiadau ar gyfer hunanasesu eu gwybodaeth gyfredol a'u dealltwriaeth i benderfynu sut i weithredu

4.1.3 Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau i adolygu'r cynlluniau gwaith cyfredol gyda'r staff

Atodiad 4.2: Paratoi ar gyfer Cam 2

Caiff ysgolion sy'n gwneud cynnydd cyflym tuag at weithredu'r FfLlRh yn effeithlon eu hannog i fynd ymlaen ar eu pen eu hunain, ac y mae'r atodiad hwn yn cynnig awgrymiadau ar sut i wneud hynny.

Gellir addasu templedi cyfarfod ac enghreifftiau i'w defnyddio yng Nghyfnod Allweddol 3 drwy fewnosod y grwpiau blwyddyn perthnasol a'r mathau o asesu

4.2.1 Templed cyfarfod ar gyfer y llywodraethwyr: yn egluro sefyllfa'r ysgol o ran gweithredu'r FfLlRh a sicrhau eu hymglymiad

4.2.2 Templed cyfarfod: gwerthuso'r cwricwlwm: llythrennedd ar draws y cwricwlwm, o'r Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 (athrawon ac ymarferwyr eraill)

4.2.3 Enghraifft o dempled cyfarfod: gwerthuso cwricwlwm a dadansoddi data Blwyddyn 6 (athrawon ac ymarferwyr eraill)

4.2.4 Enghraifft o dempled cyfarfod: darparu ar gyfer archwiliad (awdit) cwricwlwm Cam 2

4.2.5 Enghraifft o dempled cyfarfod i ysgolion ddarparu ar gyfer yr ymweliad partner

4.2.6 Templed cyfarfod: paratoi ar gyfer Cam 2: asesu, cofnodi ac adrodd (llywodraethwyr))

4.2.7 Templed cyfarfod: paratoi ar gyfer Cam 2: asesu, cofnodi ac adrodd (athrawon ac ymarferwyr eraill)

Atodiad 4.1: Ymgyfarwyddo â'r FfLlRh

4.1.1 Gweithredu'r FfLlRh (awgrym o gyflwyniad PowerPoint a nodiadau)

Pwrpas: Gwybod am strwythur a threfniadaeth y FfLlRh. Ystyried camau nesaf yr ysgol ar gyfer defnyddio'r FfLlRh fel offeryn cynllunio ac asesu'r cwricwlwm.

Cynulleidfa: Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr eraill a llywodraethwyr

Adnoddau: Bwrdd gwyn, PowerPoint 'Gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd', copïau o'r FfLlRh

Gellir addasu'r sleidiau yn hawdd ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd mewn ysgolion a gwahanol gynulleidfaoedd a gellir eu defnyddio'n hyblyg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Sleid	Cynnwys	Nodiadau
1	Tudalen y teitl	Gellir rhoi enw/logo'r ysgol ac ati ar y sleid hwn.
2	Pam fod angen y FfLlRh?	Gellir ychwanegu gwybodaeth gefndirol o Lansiad y Clwstwr yn y fan hyn.
3	PISA 2009: Perfformiad Cymru	Yn asesiad rhyngwladol PISA 2009, doedd dysgwyr 15 oed Cymru ddim cystal â'u cyfoedion mewn rhannau eraill o'r DU. Does dim rheswm cynhenid pam ddylai hyn fod. Felly rydyn ni angen rhoi cymorth i garfannau'r dyfodol, eu hathrawon ac ymarferwyr eraill i'n helpu i ddal i fyny.
4	Beth yw pwrpas y FfLlRh?	Mae'r FfLlRh yn targedu'r holl ddysgwyr rhwng 5–14 oed o bob gallu. Mae'n canolbwyntio ar y modd y mae dysgwyr yn caffael sgiliau a gwybodaeth llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a'u gallu i'w cymhwyso.
5	Pa ffurf sydd arno?	Gweler sleidiau 6 a 7. Hwyrach y bydd ysgolion yn dymuno cynnwys enghreifftiau mwy addas fan hyn.

6	Enghraifft o'r gydran rhifedd	Mae hwn yn dangos y pedwar llinyn rhifedd. O fewn pob llinyn mae yna nifer o elfennau, fel y gwelir isod: i. Datblygu ymresymu rhifyddol (3) ii. Defnyddio sgiliau rhif (5) iii. Defnyddio sgiliau mesur (4) iv. Defnyddio sgiliau data (1). Er enghraifft, mae tair elfen i Ddatblygu ymresymu rhifyddol (Adnabod prosesau a chysylltiadau; Cynrychioli a chyfathrebu; Adolygu) Trefnir datblygiad sgiliau fel continwwm. Ni fydd rhai elfennau sgil yn ymddangos nes cyrraedd cam diweddarach. Rhaid pwysleisio mai datblygu ymresymu rhifyddol ydy'r sail i'r holl linynnau rhifedd.
7	Enghraifft o'r gydran llythrennedd	Mae'r cydrannau llythrennedd ychydig yn wahanol. Mae tair elfen llythrennedd: • Llafaredd ar draws y cwricwlwm • Darllen ar draws y cwricwlwm • Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r elfennau o fewn y llinynnau hyn wedi eu his-rannu'n agweddau. Mae'r dyfyniad ar y sleid wedi ei godi o'r llinyn Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm sy'n cynnwys dwy elfen: • Trefnu syniadau a gwybodaeth • Ysgrifennu'n gywir.
8	Pwy fydd yn gofalu am y FfLlRh yn ein hysgol ni?	Hwyrach bod yr ysgol wedi neu heb benderfynu ar y person allweddol fydd yn gyfrifol am y FfLlRh. Rhaid pwysleisio bod gweithredu'r FfLlRh yn gyfrifoldeb i bawb.
9	Atgyfnerthu? Dilyniant?	Rhaid pwysleisio hefyd • bydd y sgiliau yn y FfLlRh yn cael eu cymhwyso a'u datblygu ar draws y cwricwlwm • bod y term dilyniant yn cael ei ddefnyddio i adlewyrchu cymhlethdod cynyddol y dasg a bod y dysgwr yn cynyddu mewn annibyniaeth.

10	Beth sydd angen i ni ei wneud?	Mae angen cynnal archwiliad (awdit) o gwricwlwm yr ysgol. Mae deunyddiau y RhGG ar gael i gynorthwyo hyn.
11	Camau pellach?	Sut gall yr ysgol ddefnyddio'r FfLlRh yn ffurfiannol i asesu cynnydd unigol y dysgwyr a chynnydd yr holl ddosbarth? A allwn ni gael y dysgwyr i gymryd mwy o ran yn y broses hon? Bydd y staff yn trafod y materion hyn.
12	Pwy? Beth? Pryd? Sut? (cynllun gweithredu)	Gallai rhai o'r ffyrdd ymlaen fod yn cynnwys: • gweithio mewn grwpiau/cyfnodau allweddol/ pynciau cwricwlwm • gwaith ysgol gyfan, gan ganolbwyntio ar un elfen ar y tro. Efallai bydd penaethiaid/yr uwch dîm rheoli yn dymuno gweithredu eu syniadau personol fan hyn.

Mae'r cyflwyniad PowerPoint yn cysylltu â Phecyn Hyfforddi y FfLlRh 'Gweithdy 1: Gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)'. I weld y cyflwyniad llawn, ewch i adran y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar wefan Dysgu Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk

Efallai yr hoffai ysgolion ddefnyddio cwestiynau enghreifftiol PISA yng Ngweithdy 1 mewn sesiwn bellach.

Ysgol_____

Gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Pam fod angen y FfLIRh?

Tystiolaeth eang yn seiliedig ar:

- ymchwil yn y maes cyflogaeth
- adroddiadau arolygon Estyn
- asesiadau diwedd cyfnod allweddol athrawon
- canlyniadau PISA
- cymwysterau

yn dangos fod angen i Gymru wella'i lefelau llythrennedd a rhifedd ar draws y boblogaeth.

PISA 2009: Perfformiad Cymru

Ffigwr 1: Perfformiad fesul gwlad mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth (2009)



Beth yw pwrpas y FfLIRh?

Bydd y FfLIRh yn helpu ysgolion i wneud y canlynol:

- cynllunio eu cwricwlwm i sicrhau fod dysgwyr yn gallu datblygu'r lefel angenrheidiol o sgiliau a gwybodaeth
- cymharu perfformiad y dysgwyr â'r safonau cenedlaethol disgwyliedig mewn llythrennedd a rhifedd.

Pa ffurf sydd arno?

Dwy ran – llythrennedd a rhifedd – wedi ei rannu i'r **llinynau** canlynol:

- **Llythrennedd** (tri llinyn):
  - llafaredd ar draws y cwricwlwm
  - darllen ar draws y cwricwlwm
  - ysgrifennu ar draws y cwricwlwm
- **Rhifedd** (pedwar llinyn):
  - datblygu ymresymu rhifyddol
  - defnyddio sgiliau rhif
  - defnyddio sgiliau mesur
  - defnyddio sgiliau data

Caiff y llinynnau llythrennedd a rhifedd eu rhannu ymhellach yn **elfennau**.
Is-rennir yr elfennau llythrennedd ymhellach yn **agweddau** er mwyn hwylustod.

Enghraifft o gydran rhifedd




Enghraifft o gydran llythrennedd
Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme
Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy

Pwy fydd yn gofalu am y FfLIRh yn ein hysgol ni?
• Athro/athrawes FfLIRh penodol?
• Llywodraethwr FfLIRh penodol?
Bydd cyfrifoldeb ar yr **holl** staff addysgu i weithredu'r FfLIRh.
Fel ysgol rydyn ni angen sicrhau bod cyfle i ddysgwyr **atgyfnerthu a chael dilyniant** yn eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn llythrennedd a rhifedd ar draws yr **holl gwricwlwm.**
Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme
Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy

Atgyfnerthu?
Ystyr 'atgyfnerthu' yw ymarfer sgil mewn amrywiaeth o gyddestunau, gan arddangos gallu cynyddol i gymhwyso'r sgil i sefyllfaoedd llai cyfarwydd ac i fod angen llai o gymorth a chyfeirio.
Dilyniant?
Ystyr 'dilyniant' yw cynyddu **lled** a **dyfnder** y dysgu ar bob cam o ddatblygiad yn ogystal â darparu mwy o **her** i'r dysgwyr.
Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme
Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy

Beth sydd angen i ni ei wneud?
Yn ein cynlluniau cwricwlwm, mae angen i ni ddynodi:
• pryd a sut bydd sgiliau a gwybodaeth yn cael eu cyflwyno
• pryd a sut bydd sgiliau a gwybodaeth yn cael eu hatgyfnerthu
• pryd a sut bydd sgiliau a gwybodaeth yn cael eu datblygu ymhellach
• cryfderau a meysydd i'w gwella.
Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme
Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy


Camau pellach?
A allwn ni wneud defnydd mwy effeithiol o'r FfLIRh er mwyn:
• cynorthwyo cynnydd y dysgwyr a gosod targedau 'camau nesaf'?
• cyfeirio trafodaethau gyda'r dysgwyr, rhieni/gofalwyr?
Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme
Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy

Pwy? Beth? Pryd? Sut?
Ein Cynllun Gweithredu
• Beth yw'r camau nesaf i'n hysgol ni?
• Oes gan unrhyw un enghreifftiau neu awgrymiadau?
Gan ddibynnu ar y dasg, gallai'r ffordd ymlaen gynnwys y canlynol:
• gweithio mewn grwpiau – cyfnodau allweddol/pynciau cwricwlwm ac ati
• dull ysgol gyfan – gan weithio ar un elfen o un llinyn ar y tro.
Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme
Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy

4.1.2 Adolygu'r FfLlRh gyda'r staff: eu galluogi i hunanasesu lefel gyfredol yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth, er mwyn penderfynu ar y camau gweithredu

Pwrpas: Galluogi staff i wneud y canlynol:

- ystyried ble maen nhw'n sefyll mewn perthynas â'r datganiadau isod
- penderfynu ar y camau gweithredu nesaf.

Cynulleidfa: Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr erall (cynradd ac uwchradd)

Adnoddau: Copïau o'r FfLlRh

Pa un o'r datganiadau isod sy'n gymwys i chi a'ch ysgol?

1	Mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn dod yn gyfarwydd ag amcanion a dibenion y FfLlRh.
2	Mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn ymwybodol o gynnwys, disgwyliadau a llinellau dilyniant y FfLlRh.
3	Mae cynlluniau gwaith ysgol gyfan wedi eu hadolygu a chysylltiadau penodol i'r FfLlRh wedi eu sefydlu.
4	Mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn hyderus eu bod yn hyddysg yng ngofynion llythrennedd a rhifedd pob pwnc (cynradd) neu eu pwnc eu hunain (uwchradd).
5	Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl gwricwlwm.
6	Mae tracio dysgwyr unigol wedi ei ymgorffori ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau dilyniant pellach.
7	Mae arweinwyr pwnc yn cynorthwyo addysgu a dysgu FfLlRh ar draws yr ysgol drwy amrediad o strategaethau (arsylwi addysgu, archwilio gwaith dysgwyr, safoni, modelu ac ati).
8	Athrawon yn cynllunio ar gyfer atgyfnerthu a dilyniant sgiliau llythrennedd a rhifedd.

9	Mae'r cynlluniau gwaith yn cwrdd â gofynion y FfLlRh yn llawn gyda chynlluniau tymor canolig a hir dymor sy'n dangos sut bydd sgiliau yn cael eu datblygu ar draws grŵp blwyddyn.
10	Defnyddir asesiadau ffurfiannol a chrynodol o sgiliau FfLlRh yn effeithiol i godi cyrhaeddiad.
11	Athrawon ac ymarferwyr eraill yn cynllunio ffyrdd o wneud dysgwyr yn ymwybodol o sut i ddatblygu eu gwaith eu hunain drwy ddarparu adborth ar safonau.
12	Athrawon ac ymarferwyr eraill yn gwerthuso effaith dulliau ysgol gyfan drwy ddadansoddi data yn gyson, arsylwi addysgu ac archwilio gwaith dysgwyr.

Sylwer: Mae'r gweithgaredd hunanadolygu hwn yn deillio o nodau ar gyfer pob athro ar dudalen 26 o *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys nodau manwl ar gyfer penaethiaid ac arweinwyr pwnc. Gellid defnyddio'r rhain yn sail i hunan adolygu o fewn uwch dimoedd arwain ac adrannau.*

* Cyfeiriwch at ddeunyddiau cyfarwyddyd a chymorth Llywodraeth Cymru – gweler Atodiad 5.

4.1.3 Awgrym o weithgareddau ar gyfer adolygu cynlluniau gwaith cyfredol gyda'r staff

Pwrpas: Rhoi cymorth i athrawon ac ymarferwyr eraill wneud y canlynol:

- ymgyfarwyddo â llinellau dilyniant drwy ganolbwyntio i ddechrau ar un elfen, gan ffurfio'r holl ddatganiadau disgwyliad ar gyfer y Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 9, yn cynnwys y deunyddiau ymestyn.
- ystyried sut y dylid addasu'r cynlluniau addysgu, cynllunio pwnc a chynlluniau gwaith.

Efallai bydd ysgolion yn penderfynu addasu cynlluniau gwaith cyn ymuno â'r RhGG yn hytrach nag aros tan y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae ymgyfarwyddo â'r FfLlRh a deall ei oblygiadau ar gyfer addysgu ac asesu yn rhan o Gam 1. Bydd nifer o ysgolion wedi cychwyn ar y dasg hon ac mae ganddyn nhw ar y gweill eisoes ddulliau o ystyried y datganiadau disgwyliad a sut i fynd ati i adolygu'r cynlluniau gwaith cyfredol. Mae'r gweithgaredd hwn a awgrymir yn cychwyn gyda datganiadau sy'n gysylltiedig ag oedran Blwyddyn 9, gan fod angen i bob athro/athrawes ac ymarferydd arall fod yn ymwybodol o sut mae eu gwaith yn cyfrannu at ddeilliannau sy'n gysylltiedig ag oedran llwyddiannus ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae datganiadau disgwyliad perthnasol y FfLlRh yn darparu'r ffocws ar gyfer ystyried dilyniant.

Cynulleidfa: Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr eraill

Adnoddau:
- Copi wedi ei chwyddo o'r elfen llafaredd 'Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau', o'r Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 9 a'r datganiadau ymestyn, addas ar gyfer trafodaeth grŵp;
- Copïau o'r FfLlRh;
- Taflen i'w rhannu 'Trefnu syniadau a gwybodaeth: enghraifft o ddadansoddiad o'r elfen o'r hyn a ddisgwylir ym Mlwyddyn 9'.

Sylwer: Gellid defnyddio'r gweithgaredd hwn i gysylltu â 'Gweithdy 2: Mapio'r cwricwlwm' a 'Gweithdy 3: Cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer dilyniant' o becyn hyfforddi y FfLlRh.

Cynnwys	Nodiadau
Gweithgaredd 1: Cychwyn mapio dilyniant 20–30 munud	Trafod syniadau i gael disgrifiad o'r math o sgiliau, ymagweddau ac ymddygiad llythrennedd/rhifedd y mae dysgwyr Blwyddyn 9 eu hangen er mwyn gweithredu'n gysurus o fewn 'Trefnu syniadau a gwybodaeth', yr elfen Blwyddyn 9. **Uwchradd:** Gweithio'n ôl drwy bob grŵp o elfennau gan wneud yr un peth eto, canfod y cysylltiadau â sgiliau'r flwyddyn flaenorol a thrafod y modd y gall yr elfennau awgrymu dilyniant ac adlewyrchu cymhlethdod cynyddol y dasg ac annibyniaeth gynyddol y dysgwr. **Cynradd:** Cychwyn gyda'r elfennau sy'n berthnasol i blant oedran Dosbarth Derbyn a gweithio i fyny drwy'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn lleoli cysylltiadau â sgiliau'r flwyddyn ganlynol a thrafod sut mae'r elfennau yn: • awgrymu dilyniant a mireinio sgiliau • adlewyrchu cymhlethdod cynyddol y dasg ac annibyniaeth gynyddol y dysgwr.
Gweithgaredd 2: Ystyried y dilyniant a'r modd y mae'n cael ei enghreifftio yn y FfLlRh 15–20 munud	Gofynnwch i'r cyfranogwyr edrych eto i weld yr hyn maen nhw'n ei sylwi am y dilyniant. Ydy'r un sgiliau'n ymddangos yn yr elfennau ar wahanol lefelau o gymhlethdod a deilliant? Sut caiff cynnydd mewn annibyniaeth ei gynrychioli? Sut mae cymhwyso sgiliau yn mynd yn fwy heriol? Gallech hefyd fod yn dangos graff cymhariaeth PISA 2009 – i ddangos bod angen i ddysgwyr Cymru gyrraedd safonau uwch.
Ymestyn:	Gellir ailadrodd y gweithgaredd hwn gyda gwahanol linynnau o'r FfLlRh, er mwyn cael dull o ymgyfarwyddo â'r gwahanol linynnau o'r FfLlRh.

Taflen: Trefnu syniadau a gwybodaeth: enghraifft o ddadansoddiad o'r elfen ym Mlwyddyn 9

Enghraifft o ddadansoddiad o'r elfen ym Mlwyddyn 9:

Rhaid i'r dysgwr fod yn gallu ysgrifennu amrywiaeth o fathau o destunau. Mae hyn yn awgrymu defnydd rhwydd o strwythurau priodol iaith (gramadeg ar gyfer y math o destun) a geirfa benodol i'r pwnc. Bydd y dysgwr angen sgiliau a gwybodaeth i ddadansoddi testunau ffuglen a ffeithiol. Bydd y dysgwr hefyd angen sgiliau iaith llafar da a bydd e/hi angen gallu meddwl a siarad am y strwythurau hyn er mwyn gallu eu hysgrifennu.

Rhaid i'r dysgwyr fod yn gallu ysgrifennu llawer, gan awgrymu stamina ysgrifennu (y gallu i ddarllen drwy ganolbwyntio ac i bwrpas, drwy ddarnau maith o destun) a phrofiad o ysgrifennu ar amrediad o wahanol bynciau. Mae angen gallu darllen a deall ar lefel uchel (defnyddio rhesymiad) er mwyn gwneud defnydd o wybodaeth a phrofiad ysgrifennu'r dysgwr ar gyfer amrywiaeth o ddibenion. Mae hyn yn awgrymu bod y dysgwr yn ddarllenydd profiadol ar draws ystod o wahanol genres ac o ddeunyddiau penodol i'r pwnc. Rhaid bod dysgwyr wedi eu hysgogi i ddal ati, i feddwl am eu gwaith eu hunain, a'r modd o adolygu eu gwaith eu hunain o ran pwrpas yr ysgrifennu ac wedi ymrwymo i ddibenion y disgrifio, egluro neu'r perswadio.

Sylwer: Dydy hon ddim yn rhestr gyflawn. Bydd cyfranogwyr yn canfod rhagor o enghreifftiau wrth iddyn nhw ddadansoddi arwyddocâd yr elfennau a datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r dilyniannau a ddaw yn eu sgil.

Cwestiynau i'w hystyried

Sut mae'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio o fewn elfennau Blwyddyn 9 yn cysylltu â sgiliau cynharach ac â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer arholiadau yn 16 ac 18 oed?

Atodiad 4.2: Paratoi ar gyfer Cam 2

Sylwer: Mae'r templedi a'r enghreifftiau sy'n dilyn yn cysylltu â 'Gweithdy 4: Olrhain, monitro a chofnodi cynnydd' o becyn hyfforddi y FfLlRh.

4.2.1 Templed cyfarfod ar gyfer llywodraethwyr: egluro sefyllfa'r ysgol o ran gweithredu'r FfLlRh a sicrhau eu hymglymiad

Pwrpas:	Cyflwyno gwerthusiad cwricwlwm yr ysgol yng nghyd-destun y FfLlRh
Cynulleidfa:	Llywodraethwyr
Adnoddau:	Templed, cynllun gweithredu
Gweithgaredd:	Ble ydyn ni ar hyn o bryd? Cyflwyniad gan arweinwyr ysgol yn dilyn ymweliad partner y RhGG

Pwy sy'n arwain?	Pwy fydd yn bresennol?	Ble fydd yn cael ei gynnal?	Pryd?
Arweinydd allweddol perthnasol	Llywodraethwyr	Ysgol	Cyfarfod penodol cyn gynted â phosibl ar ôl ymweliad partner â'r ysgol

Amcanion/pwrpas y cyfarfod
• Cyflwyno cynllun gweithredu i lywodraethwyr ysgol sy'n dangos sefyllfa'r ysgol o ran gofynion statudol y FfLlRh. • Sicrhau eu bod yn deall y goblygiadau er mwyn monitro a herio'r canlyniadau.
Paratoadau cyn y cyfarfod
Sicrhau bod gan bob llywodraethwr grynodeb o'r FfLlRh, enghraifft o'i fformat a chopi o'r cynllun gweithredu.

Agenda

Croeso

Atgoffa pawb o egwyddorion FfLlRh a'r llinellau amser.

Atgoffa pawb o linellau amser y RhGG a rôl y partner.

Amlinellu proses Cam 1:

a) Awdit cychwynnol

b) Dadansoddiad pwnc

c) Dadansoddiad ysgol gyfan

Egluro'r modd y cynhaliodd yr ysgol yr awdit

Egluro'r dyfarniadau cyffredinol (e.e. gwyrdd, ambr, coch)/proses hunanwerthuso'r FfLlRh a rôl y partner yn y broses

Gwerthuso ymglymiad presennol y llywodraethwyr

a) Safonau/data

Sut cyflwynir data perfformiad dysgwyr i'r llywodraethwyr?

Pa mor ymwybodol yw'r llywodraethwyr bod perfformiad a chanlyniadau'r ysgol yn cydfynd â gofynion y FfLlRh?

b) Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Pwy yw'r llywodraethwr a enwir sydd â chyfrifoldeb dros y FfLlRh?

c) Her

I ba raddau mae llywodraethwyr yn herio'r ysgol ar ganlyniadau llythrennedd a rhifedd dysgwyr?

ch) Blaenoriaethu gwelliant

Ydy blaenoriaethau'r FfLlRh yn cael eu cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol?

Ydy'r cyllid wedi'i ddyrannu'n briodol i gwrdd â blaenoriaethau?

d) Rheoli perfformiad

Pa systemau sy'n bodoli i osod targedau heriol ar gyfer athrawon ac ymarferwyr eraill yng nghyd-destun y FfLlRh?

I ba raddau mae llywodraethwyr yn ymwybodol o'r effaith ar addysgu, dysgu a chanlyniadau dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd?

Pa drefniadau rheoli perfformiad sy'n bodoli ar gyfer y cynorthwywyr addysgu?

dd) Gwirio cynnydd

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod targedau'r FfLlRh yn cael eu cyflawni?

Oes meini prawf clir a phenodol i fesur cynnydd?

Sut mae llywodraethwyr yn gwirio cynnydd llythrennedd a rhifedd – pa mor gyson a thrylwyr?

Penderfynu ar y camau nesaf ar gyfer ymglymiad llywodraethwyr ac i lywodraethwyr weithredu.

Dyddiad y cyfarfod nesaf.

4.2.2 Templed cyfarfod: gwerthuso cwricwlwm: llythrennedd ar draws y cwricwlwm o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 (athrawon ac ymarferwyr eraill)

Pwrpas: Gwerthuso cwricwlwm: llythrennedd ar draws y cwricwlwm Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6

Cynulleidfa: Athrawon ac ymarferwyr eraill

Adnoddau: Templed

Gweithgaredd: Ble ydyn ni ar hyn o bryd?

Beth yw'r man cychwyn?	Pwy sy'n arwain?	Pwy fydd yn cymryd rhan?
Llythrennedd ar draws y cwricwlwm Archwilio samplau o waith dysgwyr Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6	Pennaeth	Athrawon ac ymarferwyr eraill

Meini prawf ar gyfer y cynnydd disgwyliadwy:

Coch = yn is na'r cyfartaledd

Ambr = yn unol â'r cyfartaledd

Gwyrdd = yn uwch na'r cyfartaledd

Ail-ddarllen prif negeseuon y FfLlRh
Sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gopi o'r FfLlRh ac yn gyfarwydd â'i gynnwys, ei fformat a'i ofynion. Mae'r FfLlRh yn ychwanegu at ac yn atgyfnerthu arferion presennol ysgolion. Addysgir llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Archwilio samplau o waith llythrennedd ar draws y cwricwlwm: Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6
a) Safonau
Ydy'r safonau yn briodol ar gyfer y grŵp blwyddyn dan sylw?
Ydy'r safonau yn briodol ar gyfer gwahanol lefelau o allu (gan gynnwys y mwy galluog a thalentog)?
Ydy'r dysgwyr yn ysgrifennu ar draws y cwricwlwm i'r un safon ag y maen nhw'n ei gyflawni mewn gwersi Cymraeg?
Ydy'r dysgwyr yn ysgrifennu ar draws y cwricwlwm i'r un safon ag y maen nhw'n ei gyflawni mewn gwersi Saesneg?
Graddio'r gwaith a blaenoriaethu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.
b) Cynnydd
Ydy'r llyfrau yn dangos cynnydd priodol?
Ydy pob grŵp o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliadwy?
Ydy dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol yn defnyddio'r sgiliau ar lefel eu gallu?
Oes tystiolaeth glir o wahaniaethu effeithiol?
Graddio'r gwaith a blaenoriaethu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

Sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm
Ydy dysgwyr yn gallu defnyddio sgiliau llythrennedd yn effeithiol ar draws pob maes yn y cwricwlwm?
Oes dilyniant mewn sgiliau llythrennedd?
Ydy sgiliau llythrennedd yn unol â'r safonau a gyflawnwyd yn y Gymraeg?
Ydy sgiliau llythrennedd yn unol â'r safonau a gyflawnwyd yn Saesneg?
A welir dilyniant mewn sgiliau ail iaith Cymraeg?
Ydy dysgwyr yn ysgrifennu ar draws ystod o 'genres' at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol?
Ydy dysgwyr yn cynllunio, drafftio ac ail-ddrafftio'u gwaith yn effeithiol?
Ydy'r sillafu ac atalnodi yn briodol i'r oed?
Ydy'r llawysgrifen a'r cyflwyniad yn eglur?
Graddio'r gwaith a blaenoriaethu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

Safoni: Cytuno ar lefelau sampl o waith dysgwyr Cyfnod Sylfaen Blwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 6
Ffocws cychwynnol ar y pontio o un cyfnod i'r llall: • Blwyddyn 2 i Flwyddyn 3 • Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7 Staff Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn penderfynu cytuno i safoni'r gwaith ar draws yr holl grwpiau blwyddyn. Penderfynu ar lefelau o ran y FfLlRh a'r camau nesaf Trafod targedau penodol y datganiad disgwyliad gyda dysgwyr.

Addysgu: pennaeth a'r cydlynydd llythrennedd yn cyd-arsylwi ymmhob dosbarth
a) Ansawdd y dulliau addysgu a'u heffaith ar ddysgu dysgwyr
Ydy staff yn meddu ar yr wybodaeth bwnc ddiweddaraf? Ydy disgwyliadau'r staff yn rhai uchel ac yn herio pob dysgwr i gyflawni'n uchel? Ydy cyflymdra'r gwersi yn briodol bob amser? Ydy'r staff yn rheoli ymddygiad dysgwyr yn dda? **Graddio a blaenoriaethu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.**
b) Cynllunio
Ydy'r gweithgareddau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar yr hyn y mae dysgwyr eisoes yn ei wybod? Ydy'r gweithgareddau dysgu yn fwriadol osgoi tasgau isel eu lefel? Ydy'r staff yn defnyddio staff cymorth dysgu yn effeithiol? Ydy'r staff yn cynllunio'n effeithiol ac a oes ganddyn nhw amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu? Ydy gwaith dysgwyr yn cael ei wahaniaethu'n briodol yn ôl anghenion/gallu ac ati? Oes cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu sgiliau dysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg? **Graddio a blaenoriaethu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.**
c) Methodoleg
Ydy'r staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu sy'n dal diddordeb dysgwyr? Ydy'r staff yn holi'n fedrus i hybu dealltwriaeth y dysgwyr? **Graddio a blaenoriaethu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu**

ch) Gwahaniaethu
Oes tystiolaeth glir o wahaniaethu? Ydy'r tasgau/amcanion yn ddigonol i sicrhau bod dysgwyr o bob gallu yn gwneud o leiaf cynnydd da? Ydy'r staff yn ymyrryd ar adegau priodol a darparu cymorth effeithiol i bob grŵp o ddysgwyr? Ydy'r gwaith yn cynnwys dysgwyr o bob gallu? **Graddio a blaenoriaethu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu**

Gweithredu
Rhannu targedau penodol gyda'r dysgwyr Targedu cynnydd penodol y datganiad disgwyliad i lefel grwpiau o ddysgwyr e.e. Llafaredd Blwyddyn 5/6, cyflwyno gwybodaeth Safoni canlyniadau a'u matsio i'r FfLlRh Mesur cynnydd

Adrodd i'r llywodraethwr a enwebwyd i fod â chyfrifoldeb penodol dros lythrennedd

Blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol FfLlRh
Beth yw ein blaenoriaethau FfLlRh penodol? Sut byddwn ni'n gweithredu? Pwy fydd yn gyfrifol? Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd? Beth fydd canlyniadau penodol y datganiad disgwyliad?

Effaith blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol

4.2.3 Enghraifft o dempled cyfarfod: gwerthuso'r cwricwlwm a dadansoddi data Blwyddyn 6 (athrawon ac ymarferwyr eraill)

Pwrpas: Gwerthuso'r cwricwlwm a dadansoddi data, Blwyddyn 6

Cynulleidfa: Athrawon ac ymarferwyr eraill

Adnoddau: Templed

Gweithgaredd: Ble ydyn ni ar hyn o bryd?

Beth yw'r man cychwyn?	Pwy sy'n arwain?	Pwy fydd yn cymryd rhan?
Dadansoddi data: Blwyddyn 6	Pennaeth	Athrawon ac ymarferwyr eraill

Meini prawf ar gyfer y cynnydd disgwyliadwy

Gwyrdd = yn uwch na'r cyfartaledd

Ambr = yn unol â'r cyfartaledd

Coch = yn is na'r cyfartaledd

Dadansoddi data 2013			✓
Cryfderau	e.g. mae merched yn cyflawni'n dda o'u cymharu â'r data cenedlaethol		
Meysydd i'w datblygu	e.g. bechgyn yn tangyflawni darllen Lefel 4		

Camau gweithredu ar unwaith		✓	
Monitro cywirdeb cofrestr ADY ac addasu			
Paru casgliadau dadansoddiad y data â strategaethau ymyriad			

Ymyriad/cymorth a her		✓	
Penodi cynorthwyydd addysgu i dargedu/cynorthwyo bechgyn i ddarllen a sicrhau deunydd darllen priodol			

Trefnu pob cynorthwyydd addysgu i ffocysu'n benodol *e.e. Darllen Lefel 5, ysgrifennu Lefel 4/5, ADY, tangyflawnwyr*
Targedu'r dysgwyr mwyaf galluog a thalentog *e.e. cynlluniau addysg unigol ar gyfer sesiynau unigol wythnosol*

Staffio: Ail-alinio cyfrifoldebau staff i gydfynd â blaenoriaethau		✓	
Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol Cydlynydd anghenion addysgol wedi'u targedu Cydlynydd mwyaf galluog a thalentog			

Cynlluniau		✓	
Sesiynau darllen dyddiol dan gyfarwyddyd ymhob dosbarth *e.e. pwyslais penodol ar ddeunydd darllen addas* Ffocws penodol *e.e. ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm*			

Hyfforddiant mewnol a datblygiad		✓	
Darllen dan gyfarwyddyd	Ymweliad i weld arfer dda mewn dosbarth		
Deunydd darllen addas	Ffair lyfrau		
Ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm	Gweithdy cydlynydd llythrennedd i greu fframwaith a phortffolio ysgol		
Meysydd i'w gwella	*e.e. bechgyn yn tangyflawni darllen Lefel 4*		

Darpariaeth allgyrsiol	✓		
Clybiau sy'n canolbwyntio ar ddiddordebau bechgyn yn cyfoethogi profiadau i wella diddordeb bechgyn: *e.e. darllen, garddio, animeiddio, ffilmiau, ffotograffiaeth, podlediadau, Clwb Gwyddbwyll, papur newydd ac ati.*			

Partneriaethau	✓		
Rhieni/gofalwyr *e.e. 'Llyfrynnau Gwybodaeth' ar sut i helpu i ddatblygu darllen ac ysgrifennu yn y cartref.*			
Partneriaethau gydag ysgolion uwchradd e*.e. prosiectau ysgrifennu, yn defnyddio arbenigedd staff mewn llythrennedd*			

Strategaethau monitro	✓		

Beth?	Sut?	Pwy?	Pryd?
Effaith ymyriadau	Samplo gwaith a siarad â dysgwyr	Pawb*	Wythnosol
	Adolygiadau tracio cynnydd/ addasu strategaeth gymorth		bob hanner tymor
Dadansoddi cynnydd Lefel 4/Lefel 5,	Data a sgoriau safonedig	C Ll *	bob hanner tymor
Amlinellu'r camau penodol nesaf	Cyfarfodydd byr i drafod gwendidau a datblygiadau arwyddocaol	Pawb	Dyddiol
Cynlluniau athrawon	Casglu llyfrynnau/ffeiliau cynllunio a'u trafod	Pennaeth	Misol
Archwilio gwaith	Samplo (2 lyfr o bob dosbarth)	C Ll	Wythnosol
Teithiau dysgu ac adborth	Ffocws: blaenoriaeth benodol e.e. llythrennedd ar draws y cwricwlwm	Pennaeth	Wythnosol

Allwedd: Pawb* = Ar y cyd: Cydlynwyr, athrawon, ymarferwyr eraill;
C Ll * = Cydlynydd llythrennedd

Effaith												
Tueddiadau tair blynedd: Safonau darllen bechgyn												
Bechgyn Blwyddyn 6	**2011**			✓	**2012**		✓		**2013**	✓		
Nifer yn y garfan	15				12				16			
% Lefel 4	68%				75%				98%			
% Lefel 5	5%				10%				55%			
Bechgyn Blwyddyn 4	**2011**			✓	**2012**		✓		**2013**	✓		
Nifer yn y garfan	13				15				20			
% Lefel 3	25%				58%				78%			
% Lefel 4	3%				3%				15%			
Bechgyn Blwyddyn 2	**2011**			✓	**2012**		✓		**2013**	✓		
Nifer yn y garfan	14				14				17			
% Lefel 2	100%				98%				100%			
% Lefel 3	18%				35%				50%			

Casgliadau

Y camau nesaf

4.2.4 Enghraifft o dempled cyfarfod: paratoi ar gyfer awdit cwricwlwm Cyfnod 2 (cynradd ac uwchradd)

Pwrpas: Paratoi ar gyfer awdit cwricwlwm Cam 2

Cynulleidfa: Athrawon ac ymarferwyr eraill

Adnoddau: Templed

Gweithgaredd: Ble ydyn ni ar hyn o bryd?

Pwy sy'n arwain?	Pwy fydd yn bresennol?	Ble fydd e'n cael ei gynnal?	Pryd?
Pennaeth Partner RhGG	Athrawon Ymarferwyr eraill	Ysgol	Ar ôl ysgol: 3.45–5.00 Cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod clwstwr

Amcanion/pwrpas y cyfarfod:

Galluogi pob athro/athrawes ac ymarferwyr eraill i:

- gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd;
- ymgorffori'r FfLlRh yng nghynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith;
- sicrhau y delir â sgiliau llythrennedd a rhifedd ar yr adeg briodol;
- datblygu addysgeg briodol;
- asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd ochr yn ochr â sgiliau penodol i'r pwnc;
- gwybod y safonau y disgwylir gan ddysgwyr sy'n cychwyn mewn ysgolion uwchradd;
- herio dysgwyr mwy galluog a thalentog i gyflawni lefelau cwricwlwm cenedlaethol uwch neu raddau TGAU uwch.

Paratoadau cyn y cyfarfod

Sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gopi o'r FfLlRh ac yn gyfarwydd â'i fformat a'i gynnwys.

Agenda

Croeso

Cyflwyno'r partner RhGG

Atgoffa pawb o egwyddorion a llinellau amser y FfLlRh

Atgoffa pawb o linellau amser y RhGG a rôl partneriaid

Proses amlinellu Cam 1

a) Awdit cychwynnol

b) Dadansoddi pwnc

c) Dadansoddiad ysgol gyfan

Cyflwyno detholiad cryno o enghreifftiau perthnasol i gyd-destun ysgol e.e. cyfnod, iaith, maint.

Dathlu (a chofnodi ar siart troi) yr hyn y mae'r ysgol eisoes wedi'i gyflawni – y manteision

Trafod y bylchau (cofnodi ar siart troi)

Trafod barn yr ysgol am werthusiad y cwricwlwm ac effaith y FfLlRh (partner y RhGG)

Gwyrdd = yn uwch na'r cyfartaledd

Ambr = yn unol â'r cyfartaledd

Coch = yn is na'r cyfartaledd



Y camau nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf

4.2.5 Enghraifft o dempled cyfarfod ar gyfer ysgolion i baratoi ar gyfer ymweliad partner

Efallai y dymunech ofyn i'ch partner arwain rhai o'r cyfarfodydd yn yr ysgol gyda'r staff, o bosib ar y cyd gyda staff o ysgolion eraill yn eich clwstwr.

Pwrpas: Cyfarfod rhagbaratoi ar gyfer y cyfarfod pan fydd y partner yn cwrdd â staff yr ysgol i drafod dyfarniadau'r ysgol ar asesu, cofnodi ac adrodd

Cynulleidfa: Pennaeth, athrawon ac ymarferwyr eraill

Adnoddau: Templed

Braslun o'r sesiwn		
Amser	**Manylion am y cynnwys**	**Cymhorthion dysgu**
5 munud	**Croeso** (Pennaeth) **Cyflwyno partner y RhGG** Cyfeirio at brofiad cefndirol	
15 munud	**Egluro'r cefndir** (partner y RhGG) • Atgoffa pawb o egwyddorion a llinellau amser y FfLlRh • Atgoffa pawb o linellau amser y RhGG • Amlinellu proses Cam 1 o werthuso'r cwricwlwm Datgan nod/pwrpas y cyfarfod Egluro rôl y partner Gwahodd cwestiynau yn ystod/ar ôl y sesiwn neu roi nodiadau ar boster Amlinellu'r cynnwys a'r strwythur Nodi'r amser gorffen: 85 munud	PowerPoint
15 munud	**Cyflwyno detholiad o enghreifftiau perthnasol i gyd-destun ysgol** e.e. cyfnod, iaith, maint Gwahodd trafodaeth ar ddefnyddioldeb, cryfderau a meysydd i'w gwella	Delweddwr
5 munud	**Dathlu'r hyn y mae'r ysgol eisoes wedi'i gyflawni – y manteision** (Cofnodi ar siart troi)	Siart troi/ marcwyr

10 munud	**Trafod dyfarniadau'r ysgol o ran asesu, cofnodi ac adrodd ac effaith y FfLlRh** **Gwyrdd = yn uwch na'r cyfartaledd** **Ambr = yn unol â'r cyfartaledd** **Coch = yn is na'r cyfartaledd:** 	Taflen
5 munud	**Trafod y bylchau** (cofnodi ar siart troi)	
10 munud	**Y camau nesaf**	Siart troi/ marcwyr
5 munud	**Dyddiad a phwrpas y cyfarfod nesaf** (pennaeth i arwain)	
10 munud	**Holi ac ateb** (partner y RhGG)	Posteri a nodiadau gludiog
5 munud	**Gorffen ar uchafbwynt a nodyn positif** Dathlu cryfderau'r ysgol yng nghyd-destun y FfLlRh Cadarnhau camau nesaf yr ysgol (beth, pwy, pryd, sut) Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan	

Sylwer: Mae paratoi ar gyfer ymweliad partner yn cysylltu â phecyn hyfforddi y FfLlRh 'Gweithdy 5: Y camau nesaf'.

4.2.6 Templed cyfarfod: paratoi ar gyfer Cam 2: asesu, cofnodi ac adrodd (llywodraethwyr)

Bydd angen i lywodraethwyr sicrhau bod trefniadau asesu ac adrodd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd angen i'r corff llywodraethu hefyd fod yn ymwybodol o weithdrefnau asesu'r ysgol fel rhan o'u rôl i godi safonau yn yr ysgol.

Mae'r templed cyfarfod hwn yn awgrymu pynciau a fyddai'n sail ar gyfer trafodaeth ar asesu, cofnodi ac adrodd.

Pwrpas: Paratoi ar gyfer Cam 2: asesu, cofnodi ac adrodd

Cynulleidfa : Llywodraethwyr

Adnoddau: Templed

Gweithgaredd: Ble ydyn ni ar hyn o bryd?

Pwy sy'n arwain?	Pwy fydd yn bresennol?	Ble fydd e'n cael ei gynnal?	Pryd?
Pennaeth	Llywodraethwyr	Ysgol	Cyfarfod penodol Cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod clwstwr

Amcanion/pwrpas y cyfarfod
Helpu llywodraethwyr ysgol i wneud y canlynol: • cynllunio ar gyfer gweithredu'r FfLlRh; • gweithredu asesu ac adrodd ysgol gyfan; • datblygu'r broses o adrodd i rieni/gofalwyr am lythrennedd a rhifedd; • defnyddio canlyniadau profion darllen a rhifedd i gynllunio gwelliant.
Paratoadau cyn y cyfarfod
Sicrhau bod gan bob llywodraethwr grynodeb o'r FfLlRh ac enghraifft o'i fformat a'i gynnwys.

Agenda

Croeso

Atgoffa pawb o egwyddorion a llinellau amser y FfLlRh
Atgoffa pawb o linellau amser y RhGG a rôl partner

Ail ddarllen proses Cam 1: dadansoddiad o'r cwricwlwm

Cyflwyno detholiad cryno o enghreifftiau perthnasol i gyd-destun ysgol e.e. cyfnod, iaith, maint.

Egluro sut mae'r ysgol yn bwriadu cynnal yr awdit

Egluro'r dyfarniadau cyffredinol (gwyrdd, ambr, coch) ar asesu, cofnodi ac adrodd y FfLlRh

Trafod a gwerthuso ymglymiad presennol y llywodraethwyr o ran asesu, cofnodi ac adrodd y FfLlRh

a) Safonau/data

- Ydy'r llywodraethwyr yn derbyn dadansoddiad o ddata'r ysgol?
- Oes ganddyn nhw ddealltwriaeth ystyrlon o berfformiad a chanlyniadau'r ysgol?
- Ydyn nhw'n herio tangyflawni yn drylwyr a chyson?

b) Polisïau a gweithdrefnau

- Ydy'r polisïau asesu, cofnodi ac adrodd wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r FfLlRh?

c) Cofnodi/tracio/defnydd o asesu/gwahaniaethu

- Ydy'r staff yn tracio cynnydd dysgwyr yn effeithiol?
- Ydy dysgwyr o bob gallu yn gwneud o leiaf cynnydd da?

ch) Targedau penodol i safonau

- Ydy'r dysgwyr yn gwybod yr hyn y maen nhw wedi ei gyflawni a'r hyn sydd angen iddyn nhw wneud nesaf i wella?
- Ydy'r staff yn gweithio gyda'r dysgwyr i osod targedau unigol priodol penodol i lefel?
- Ydy'r staff yn monitro a diweddaru'r targedau hyn yn gyson?

d) Safoni

- Ydy'r staff yn safoni gwaith dysgwyr yn drylwyr yn yr ysgol?
- Ydyn nhw'n safoni gwaith dysgwyr yn drylwyr ar draws y clwstwr?
- Oes ystod o staff yn rhan o'r gweithgareddau hyn – nid dim ond athrawon Blwyddyn 2 neu Blwyddyn 6?

dd) Adrodd

- Ydy'r staff yn darparu adroddiadau o ansawdd da ar gyfer rhieni/gofalwyr, adroddiadau sy'n cwrdd â'r gofynion statudol?
- A hysbysir rhieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn?
- A hysbysir rhieni/gofalwyr am dargedau penodol i lefel eu plentyn?
- Ydy rhieni/gofalwyr yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau cynnydd eu plentyn?

e) Swyddogaethau a chyfrifoldebau

- I ba raddau y mae'r llywodraethwr a enwyd yn ymwybodol o broses asesu, cofnodi ac adrodd y FfLlRh?

f) Herio

- Ydy'r corff llywodraethu'n gweithredu fel cyfaill beirniadol?
- Oes gwir her?
- Ydy'r llywodraethwyr yn gwirio cynnydd llythrennedd a rhifedd yn drylwyr a chyson?
- Pa gynnydd ac effaith mewn llythrennedd a rhifedd allan nhw ddyfynnu?

ff) Blaenoriaethu gwelliant

- Ydyn nhw'n gwybod beth ydy blaenoriaethau cyfredol yr ysgol ar gyfer trefn asesu, cofnodi ac adrodd y FfLlRh?
- Oes yna raddfeydd amser?
- Ydy'r cyllid yn cael ei ddyrannu'n briodol i gwrdd â blaenoriaethau?

g) Rheoli perfformiad

- Pa effaith gaiff y broses ar safonau llythrennedd a rhifedd, ar y dysgu a'r addysgu?

ng) Gwirio cynnydd

- Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod targedau asesu, cofnodi ac adrodd y FfLlRh yn cael eu cyflawni? Oes meini prawf llwyddiant clir, penodol i lefel ar gael i fesur cynnydd?

Y camau nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf

4.2.7 Templed cyfarfod: paratoi ar gyfer Cam 2: asesu, cofnodi ac adrodd (athrawon ac ymarferwyr eraill)

Pwrpas: Paratoi ar gyfer Cam 2: asesu, cofnodi ac adrodd

Cynulleidfa: Athrawon ac ymarferwyr eraill

Adnoddau: Templed

Gweithgaredd: Ble ydyn ni ar hyn o bryd?

Pwy sy'n arwain?	Pwy fydd yn bresennol?	Ble fydd e'n cael ei gynnal?	Pryd?
Pennaeth Partner y RhGG	Athrawon Ymarferwyr eraill	Ysgol	Ar ôl ysgol: 3.45–5.00 Cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod clwstwr

Amcan/pwrpas y cyfarfod

I alluogi pob athro/athrawes ac ymarferwyr eraill i:

- sicrhau bod ganddyn nhw bolisïau a phrosesau i dracio sgiliau dysgwyr ar draws y cwricwlwm;
- gwybod y safonau a ddisgwylir gan ddysgwyr sy'n cychwyn mewn ysgol uwchradd;
- herio'r dysgwyr mwy galluog a thalentog i gyflawni lefel uwch o'r cwricwlwm cenedlaethol/graddau TGAU uwch;
- dehongli canlyniadau asesiadau: eu trosi'n Gynlluniau Addysg Unigol;
- paratoi ar gyfer profion darllen a rhifedd;
- egluro canlyniadau profion i rieni/gofalwyr.

Paratoadau cyn y cyfarfod

Sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gopi o'r FfLlRh a'u bod yn gyfarwydd â'i fformat a'i gynnwys.

Agenda
Croeso
Cyflwyno'r partner RhGG
Atgoffa pawb o egwyddorion a llinellau amser y FfLlRh
Atgoffa pawb o linellau amser y RhGG a swyddogaeth y partner
Amlinellu proses Cam 1 o werthuso cwricwlwm
Rhannu amcanion/pwrpas
Cyflwyno detholiad cryno o enghreifftiau patrymol perthnasol i gyd-destun yr ysgol e.e. cyfnod, iaith, maint.
Dathlu (a chofnodi ar siart troi) yr hyn y mae'r ysgol eisoes wedi'i gyflawni a'r manteision
Gwyrdd = yn uwch na'r cyfartaledd
Ambr = yn unol â'r cyfartaledd
Coch = yn is na'r cyfartaledd:
✓
Trafod y bylchau (cofnodi ar siart troi)
Y camau nesaf
Dyddiad y cyfarfod nesaf

Atodiad 5: Trosolwg o'r cyfarwyddyd a'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac Estyn

Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg i ysgolion o'r cymorth a'r cyfarwyddyd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Lluniwyd y deunyddiau i gynorthwyo ysgolion wrth iddyn nhw adolygu'r ddarpariaeth gyfredol a chynllunio i weithredu'r FfLlRh.

Nodwyd cysylltiadau ar gyfer agweddau penodol o Gam 1 a gweithgareddau a awgrymir drwy'r ddogfen hon.

Ffynhonnell	*Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2013)
Ar gael ar	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg; http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130124curriculumplanningguidancecy.pdf ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130124curriculumplanningguidanceen.pdf
Pwrpas	Mae'r ddogfen hon yn fan cychwyn ar gyfer delio â gofynion y FfLlRh. Mae'r nodau'n glir ar gyfer penaethiaid, arweinwyr pwnc, athrawon ac ymarferwyr eraill; gellir defnyddio'r rhain yn sail i drafodaethau ar adolygu a chynllunio gweithredu. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys astudiaethau achos o ymarfer effeithiol ysgolion wrth iddyn nhw adolygu, cynnal awdit (archwilio) a chynllunio ar gyfer gweithredu'r FfLlRh.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae'r deunyddiau yn Atodiad 4 yn defnyddio'r *Canllawiau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm* er mwyn darparu continwwm o hunanadolygiad ysgol yn Atodiad 4.1.2. Seilir ymarfer gweithredu'r cwricwlwm yng nghyfarfod lansio'r clwstwr ar dudalen 11 o'r ddogfen, a'i ddefnyddio i gynorthwyo adolygiad ysgol a phrosesau gwerthuso.

Ffynhonnell	Arwyddbyst at arferion gorau (gwefan Estyn)
Ar gael ar	Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg; www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau ac yn Saesneg: www.estyn.gov.uk/english/best-practice
Pwrpas	Gellir defnyddio astudiaethau achos o arfer sy'n 'arwain y sector' yn sail i drafodaethau staff yn dilyn hunanadolygiad a chynllunio gweithredu. Mae llawer o'r astudiaethau achos yn darparu disgrifiadau manwl o'r modd y mae ysgolion wedi codi safonau llythrennedd a rhifedd ac wedi defnyddio dulliau arloesol o fynd ati i ddatblygu dulliau traws-gwricwlaidd. Maen nhw'n darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Gellir defnyddio enghreifftiau o'r ymarfer gorau i ymestyn a gwella cynlluniau sesiwn a awgrymir yn Atodiad 4. Amcanion arweinwyr ysgol, athrawon ac ymarferwyr eraill ydy sail yr awgrymiadau ar gyfer hunanadolygu yn Atodiad 4.

Ffynhonnell	Deuddeg dull o ddefnyddio Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi i gynorthwyo cynllunio ar gyfer gwelliant (gwefan Estyn)
Ar gael ar	http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/newyddion/deuddeg-ffordd-o-ddefnyddio-adroddiad-blynyddol-paem-i-gynorthwyo-cynllunio-ar-gyfer-gwella Ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn y cyfeiriad hwn.
Pwrpas	Mae'r deunyddiau yn yr adran hon o wefan Estyn yn darparu awgrymiadau ymarferol ar gyfer defnyddio'r Adroddiad Blynyddol i gynorthwyo cynllunio ar gyfer gwelliant. Ceir hefyd sleidiau PowerPoint i'w defnyddio'n sail ar gyfer trafodaethau staff.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Bydd y RhGG Cam 2 yn datblygu dulliau ysgol gyfan i godi safonau.

Ffynhonnell	*Gwella rhifedd ar gyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol* 3 (Estyn, 2010)
Ar gael ar	http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/1528.8/Gwella%20rhifedd%20yng%20nghyfnod%20allweddol%202%20a%20chyfnod%20allweddol%203%20(Ebrill%202010)/?navmap=30,163, Ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn y cyfeiriad hwn.
Pwrpas	Yn ogystal ag argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer ysgolion, gellir defnyddio'r astudiaethau achos o ymarfer gorau i ategu'r deunyddiau yn y canllaw hwn.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae Adran 1 yn disgrifio effaith tystiolaeth Estyn ar lunio cynllun a chyfeiriad y FfLlRh a'r RhGG.

Ffynhonnell	*Llythrennedd yng nghyfnod allweddol* 3 (Estyn, 2013)
Ar gael ar	http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/249003.3/Llythrennedd%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%20-%20Mehefin%202012/?navmap=30,163, Ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn y cyfeiriad hwn.
Pwrpas	Mae'r adroddiad yn edrych sut y gwnaeth rhai ysgolion uwchradd gyflwyno gwaith trawsgwricwlaidd mewn llythrennedd. Mae'r argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer ysgolion yn canolbwyntio ar godi safonau mewn llythrennedd. Ceir hefyd astudiaethau achos o arferion gorau.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae Adran 1 yn disgrifio effaith tystiolaeth gan Estyn ar lunio cynllun a chyfeiriad y FfLlRh a'r RhGG. Mae Atodiad 4 yn cynorthwyo ysgolion i hunanadolygu eu cynnydd tuag at weithredu gwaith trawsgwricwlaidd.

Ffynhonnell	Pecyn hyfforddi y FfLlRh, gwefan Dysgu Cymru (pum gweithdy)
Ar gael ar	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=en
Pwrpas	Mae'r casgliad o ddeunyddiau PowerPoint, cyfarwyddyd ar gyflenwi a gweithgareddau yn cynorthwyo athrawon ac ymarferwyr eraill i ymgyfarwyddo â'r FfLlRh a'i weithredu.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae'r deunyddiau yn Atodiad 4 yn deillio o'r pecyn hyfforddi, yn darparu rhagor o fanylion mewn rhai achosion ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau i'r holl staff mewn achosion eraill.

Ffynhonnell	**Gweithdy 1:** Gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)
Ar gael ar	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=en
Pwrpas	I helpu cyfranogwyr i: • ddeall y cyd-destun ar gyfer y FfLlRh • meddwl am ystyr 'llythrennedd' a rhifedd' • dechrau deall strwythur y FfLlRh a'r dilyniant drwyddo • cydnabod gofynion gweithredu'r FfLlRh a'r cyfleoedd sydd ynglwm yn ei weithredu • cychwyn ystyried eu camau nesaf ac ar gamau nesaf yr ysgol i symud tuag at ddefnyddio'r FfLlRh fel man cychwyn ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae Adran 1 yn darparu rhagor o fanylion am gynllun PISA a'r cyswllt â'r FfLlRh. Mae Atodiad 4.1 'Ymgyfarwyddo â'r FfLlRh' yn darparu deunydd allweddol ar gyfer gweithdy, deunydd y gellir ei bersonoli a'i addasu ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd. Mae graff cymharol o berfformiad Cymru ar PISA wedi'i gynnwys. Mae Atodiad 4.1.2 'Adolygu'r FfLlRh gyda'r staff' yn eu galluogi i asesu lefel eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac i benderfynu sut i weithredu.

Ffynhonnell	**Gweithdy 2:** Mapio'r cwricwlwm
Ar gael ar	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=en
Pwrpas	I helpu cyfranogwyr i wneud y canlynol: • disgrifio pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd; • datblygu syniadau ar y cysylltiad rhwng llythrennedd a rhifedd; • deall strwythur y FfLlRh yn well; • adolygu sut gellir mapio sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm gan gychwyn gyda'r FfLlRh; • deall rhesymeg rhifyddol yn well; • ystyried sut i wella addysgu llythrennedd a rhifedd.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae Atodiad 4.1.3 yn awgrymu gweithgareddau pellach ar gyfer adolygu cynlluniau gwaith cyfredol gyda'r staff a gellid ei ddefnyddio i gysylltu 'Gweithdy 2: Mapio'r cwricwlwm' a 'Gweithdy 3: Cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer dilyniant'.

Ffynhonnell	**Gweithdy 3:** Cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer dilyniant
Ar gael ar	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=en
Pwrpas	I helpu cyfranogwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o: • ystyr 'dilyniant' ac 'atgyfnerthu' yn natblygiad sgiliau; • sut y dangosir dilyniant yn y FfLlRh; • y derminoleg a ddefnyddir a disgwyliadau o ran pynciau a grwpiau blwyddyn; • yr angen am eirfa gyffredin i ddisgrifio 'dysgu' a ddefnyddir gyda dysgwyr a ganddyn nhw.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae Atodiad 4.1.3 yn awgrymu dull o fynd ati i archwilio dilyniant ar draws datganiadau disgwyliadau, elfen wrth elfen. Mae'n datblygu gweithgareddau'r gweithdy i gynnwys clipiau yn dangos cynnydd ac enghraifft o ddefnyddio'r datganiadau disgwyliadau i gynorthwyo pobl i ddeall dilyniant.

Ffynhonnell	**Gweithdy 4:** Olrhain, monitro a chofnodi cynnydd
Ar gael ar	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=en
Pwrpas	I helpu cyfranogwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o: • sut bydd y FfLlRh yn cael ei ddefnyddio fel arf asesu; • asesiadau yn y dosbarth yn erbyn y FfLlRh er mwyn datblygu'r 'camau nesaf'; • ffurf 'atgyfnerthu' sgiliau a sut gellir ei gyflawni; • tracio cynnydd dysgwyr yn erbyn y FfLlRh a'r systemau tracio y gellid eu defnyddio; • sut gellid defnyddio'r FfLlRh ar gyfer adrodd blynyddol; • beth ddylai gael ei gynnwys mewn adroddiad.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Yn Atodiadau 4.2.1–4.2.6 ceir enghreifftiau o sut gallai ysgolion alw cyfarfodydd i werthuso'r cwricwlwm a threfniadau asesu, cofnodi ac adrodd. Cyflwynir enghreifftiau o asesiadau ffurfiannol yn Adran 1.

Ffynhonnell	**Gweithdy 5:** Y camau nesaf
Ar gael ar	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=en
Pwrpas	I helpu cyfranogwyr i: • atgyfnerthu ac adeiladu ar eu syniadau am y materion a drafodwyd mewn gweithdai blaenorol; • ystyried ymhellach y mecanweithiau i ymgorffori'r FfLlRh ar draws yr ysgol; • deall sut mae'r FfLlRh yn gydnaws â Fframwaith Arolygu Cyffredin (FfAC) Estyn; • defnyddio arfau hunanarfarnu ar gyfer gweithredu'r FfLlRh ar draws yr ysgol gyfan.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae ymarfer gweithredu cwricwlwm (Atodiad 3.1) yn darparu cyfle i benaethiaid gynllunio sut byddan nhw'n monitro a gwerthuso'r cynnydd tuag at y FfLlRh. Mae Atodiad 3.3 yn deillio o FfAC Estyn. Caiff ei ddefnyddio yn sail i ymweliad ysgol gan bartner y RhGG.

Ffynhonnell	Gweithdai PISA ar gyfer ysgolion, gwefan Dysgu Cymru
Ar gael ar	Mae'r deunyddiau hyn ar gael yn Gymraeg: http://learning.wales.gov.uk/learningpacks/pisa/?skip=1&lang=cy ac yn Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/learningpacks/pisa/?skip=1&lang=en
Pwrpas	Mae'r gweithdai yn ystyried canfyddiadau PISA, yn darparu gweithgareddau i edrych ar alwadau'r cwestiynau, y defnydd o fetawybyddiaeth i hyrwyddo dysgu gweithredol a datblygu trafodaeth ar sut gellid defnyddio cwestiynau PISA yn drawsgwricwlaidd ar gyfer gweithgareddau dosbarth.
Cyswllt â chanllawiau'r RhGG ar gyfer ysgolion	Mae Adran 1 yn darparu cefndir i brofion PISA a throsolwg o berfformiad Cymru yn 2009. Mae'n darparu rhagor o fanylion am y cysylltiadau rhwng PISA a chynllun y FfLlRh. Mae'r gweithdai yn darparu cyfarwyddyd sesiwn ar gyfer athrawon ac ymarferwyr eraill i ystyried cwestiynau PISA a thrafod y pynciau a ddisgrifiwyd yn Adran 1.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CfBT
Education Trust

Geirfa

Geirfa

Adroddiad naratif – disgrifiad o gyrhaeddiad a chyflawniad dysgwyr.

ADY – anghenion dysgu ychwanegol; mae'r term yn cyfeirio at ystod o anghenion sy'n effeithio ar ddysgu, gan gynnwys dysgwyr sydd:

- ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn ôl diffiniad *Cod Ymarfer AAA Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)
- yn anabl, yn ôl diffiniad Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- ag anghenion meddygol
- ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arweinwyr system – swyddogion y pedwar consortiwm rhanbarthol sy'n darparu ar gyfer yr ysgolion y monitro, yr herio, ymyriadau a chymorth o ran gwella ysgol.

Asesiad athrawon – barn athro/athrawes ar gyrhaeddiad dysgwr, ar sail amrediad o dystiolaeth.

Asesiad crynodol – asesiad sy'n crynhoi cyrhaeddiad a datblygiad dysgu ar adeg arbennig.

Asesiad ffurfiannol – asesiad sy'n canfod gwybodaeth i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Atgyfnerthu – ymarfer sgil mewn gwahanol gyd-destunau.

CAU – Cynllun Addysg Unigol.

CDY – cynllun datblygu'r ysgol.

Clystyrau – grwpiau o ysgolion yn cydweithio a chael eu cynorthwyo ar y RhGG. Fel arfer seilir y rhain o gwmpas un neu ddwy ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd partner. Bydd ffactorau fel y gymdogaeth a'r cyfrwng iaith yn aml yn rhesymau dros y cyswllt (e.e. efallai bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd). Nodir clystyrau'r RhGG gan y consortia rhanbarthol.

Consortia rhanbarthol – gwasanaethau gwella a chefnogi ysgolion y 22 awdurdod lleol sydd wedi eu grwpio'n bedwar consortiwm (gweler tudalen 33 am y manylion).

Cyflawniad – pa mor dda mae dysgwyr yn ei wneud o ran eu gallu a'r cynnydd y maen nhw'n ei wneud gan ystyried cyrhaeddiad blaenorol.

Cynllun gwaith – canllawiau ar gyfer y rhaglen ddysgu sy'n diffinio ei strwythur, y cynnwys a'r adnoddau.

Cynorthwywyr addysgu – mae'r rhain yn cynnwys cynorthwywyr addysgu a dysgu, cynorthwywyr addysgu a dysgu uwch, a chynorthwywyr cymorth dysgu.

Cyrhaeddiad – pa mor dda mae dysgwyr yn gwneud a mesur hyn yn ôl profion, a'r cymwysterau neu'r credydau a enillwyd.

Dilyniant – cynyddu lled a dyfnder y dysgu ar bob cam o ddatblygiad, yn darparu mwy o her.

Disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran – lefel cyrhaeddiad cysylltiedig â'r oed cronolegol.

Dull trawsgwricwlaidd o fynd ati – dull o gysylltu sgiliau a chysyniadau ar draws y cwricwlwm, i alluogi'r dysgwyr i weld cysylltiadau ar draws disgyblaethau pwnc.

Dwyieithrwydd – y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith. Yng Nghymru, mae dwyieithrwydd yn cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg.

EWAL – dysgwyr lle nad ydy'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw.

Estyn – Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) – offeryn cynllunio cwricwlwm gyda'r nod o ddatblygu dulliau traws-gwricwlaidd o fynd ati i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Llafaredd – y gallu i fynegi'ch hun yn effeithiol ar lafar.

Llythrennedd – y gallu i gymhwyso sgiliau a gwybodaeth mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned.

Map Cynnydd ar gyfer ysgolion – dogfen sy'n integreiddio gwybodaeth i gefnogi barn ysgol ar ba mor barod ydy hi i weithredu'r FfLlRh.

Partneriaid – bydd partneriaid yn gweithio gydag ysgolion a chlystyrau ysgolion. Byddan nhw'n gweithio gydag arweinwyr ysgol yn ogystal ag athrawon dosbarth ac ymarferwyr eraill. Wrth ddarparu cymorth, byddan nhw'n ystyried adnoddau penodol i'r RhGG a hefyd rhai a ddatblygwyd gan eraill, adnoddau sydd yn uchel eu hansawdd ac yn gwbl gyson â gweithredu'r FfLlRh.

PISA – Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr.

Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) – rhaglen o gymorth a hyfforddiant i bob ysgol, athro/athrawes ac ymarferydd arall yng Nghymru weithredu'r FfLlRh.

Rheoli perfformiad – adolygiad o berfformiad athrawon ac ymarferwyr eraill er mwyn sefydlu ac adolygu blaenoriaethau a nodau ar gyfer gwella.

Rhifedd – y gallu i gymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mathemateg i weithgareddau dyddiol yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned.

Tracio – proses ysgol gyfan i leoli a monitro cyrhaeddiad dysgwr dros gyfnod.

Ymgorffori – gwneud yn rhan annatod o'r dull cyfan o fynd ati.

Ymyriad – camau gweithredu penodol gan berson proffesiynol a/neu wasanaeth penodol gyda'r nod o wella dysgu.